



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1)

[Cyf: 20150529ASCCC(1) - 1]

Cynnwys

1	Cefndir a chyd-destun	1
2	Ymchwiliad safonau mewn perthynas â Chyrff Cyhoeddus: Cyffredinol	2
3	Rhesymoldeb a chymesuredd	4
4	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol	6
5	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd	64
6	Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg	72
7	Casgliadau'r ymchwiliad safonau	74
8	Y camau nesaf	87
	Atodiad A - Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2	88
	Atodiad B - Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau	93

1 Cefndir a chyd-destun

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Ar 7 Tachwedd 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015'.¹ Cafodd y safonau arfaethedig hyn eu datblygu i osod dyletswyddau ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, awdurdodau parciau cenedlaethol a Gweinidogion Cymru.

Wrth gyflwyno'r ddogfen, nodwyd yr isod gan Lywodraeth Cymru:

Mae'r safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar y cynlluniau iaith. Bellach, bydd yn ofynnol i sefydliadau a fydd yn gorfod cydymffurfio â safonau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol, strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn darparu sylfaen gadarn, gan alluogi Comisiynydd y Gymraeg i wella gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.²

Bu'r rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014 yn sail ar gyfer ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg ac ymarferiad Llywodraeth Cymru i gasglu tystiolaeth er mwyn llunio asesiad effaith rheoleiddiol.

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015³ i rym ar 31 Mawrth 2015, a hynny yn dilyn dadl a phleidlais yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

¹ <http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>

² <http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/141106-consultation-welsh-language-standards-cy.pdf>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

2 Ymchwiliad safonau mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus: cyffredinol

Yn unol ag adran 62, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw personau yr ymddengys i'r Comisiynydd eu bod yn aelodau o'r grwpiau canlynol o bersonau:

- Corfforaethau Addysg Bellach
- Corfforaethau Addysg Uwch
- Darparwyr Gwasanaethau Gyrfaoedd

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp '**Corfforaethau Addysg Bellach**' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Gwent
- Coleg Penybont
- Coleg Sir Benfro
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp NPTC

Y personau perthnasol a ddaw o fewn y grŵp '**Corfforaethau Addysg Uwch**' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Cymru
- Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Glyndŵr
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Y Brifysgol Agored

Y person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp '**Darparwyr Gwasanaethau Gyrfaoedd**' yn yr adroddiad safonau hwn yw:

- Career Choices Dewis Gyrfa

Cyflwynwyd hysbysiad rhagymchwilio ar 31 Hydref 2014 at sylw'r personau perthnasol. Hysbysiad ysgrifenedig yw hysbysiad rhagymchwilio: mae'n datgan bwriad Comisiynydd y

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Gymraeg i gynnal ymchwiliad safonau ac yn pennu pwnc yr ymchwiliad safonau. Ni chaiff y Comisiynydd gynnal ymchwiliad safonau oni bai iddo roi hysbysiad rhagymchwilio i bob person perthnasol (sefydliad) o leiaf 14 diwrnod cyn dechrau ar yr ymchwiliad.

Pwnc yr ymchwiliad safonau hwn oedd dyfarnu pa safonau (os o gwbl) a ddylai fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau o bersonau (p'un a yw'r safonau eisoes wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1) ai peidio).

Cychwynnodd gyfnod yr ymchwiliad safonau hwn ar 17 Tachwedd 2014. Daeth i ben ar 6 Chwefror 2015.

Yn rhan o'r ymchwiliad safonau hwn, casglwyd gwybodaeth gan bob person perthnasol a enwir yn yr adran hon. Gwnaethpwyd hynny trwy dderbyn holiadur wedi ei gwblhau ganddynt. Yn gyfochrog â'r broses o gasglu tystiolaeth gan y personau perthnasol, casglwyd tystiolaeth gan y Panel Cynghori a'r cyhoedd.

Gosodwyd holiadur i'r cyhoedd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg. Pwrpas yr holiadur hwn oedd rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd nodi'r hyn roeddent yn teimlo sy'n rhesymol i'r personau perthnasol ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg, a hynny gan ystyried y gofynion ynghlwm wrth y safonau a gyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014.

Gosodwyd hysbysiadau yn y wasg genedlaethol yn ystod cyfnod yr ymchwiliad safonau yn tynnu sylw'r cyhoedd at yr holiadur hwn. Yn ogystal â hynny, gosodwyd fideo ar wefan y Comisiynydd er mwyn rhoi cyflwyniad i'r broses, ac i ddangos i'r cyhoedd sut y gall ymateb i'r ymchwiliad safonau.

3 Rhesymoldeb a chymesuredd

Yn unol ag adran 63 (1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i'r angen am sicrhau nad yw'r gofynion am i bersonau gydymffurfio â safonau yn rhinwedd adran 25 (1) yn afresymol neu'n anghymesur.

Wrth gynnal ymchwiliad safonau, rhaid i'r Comisiynydd:

- (a) *ystyried, o ran pob gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 y mae person yn ei wneud, a yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys ai peidio, ac*
- (b) *o ran pob gweithgaredd o'r fath, os yw'n rhesymol ac yn gymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson, ddod i'r casgliad y dylai safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i'r person mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.*

Wrth ystyried rhesymoldeb a chymesuredd, dylid nodi bod y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau yn darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn Atodlen 9 a wneir gan y person ac i'r graddau y mae'n eu gwneud, yn benodol gymwys i'r person hwnnw.

Ond nid oes raid i Weinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn sicrhau bod safonau cyflenwi gwasanaethau yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â gweithgaredd a bennir yn Atodlen 9 os yw, neu i'r graddau y mae:

- (a) adroddiad safonau o dan adran 64 yn nodi y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw, neu bod
- (b) Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw.

Nid yw hynny'n atal rheoliadau rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Drwy wneud rheoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol, awdurdodir Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i berson.

Hysbysiad cydymffurfio yw hysbysiad a roddir i berson gan y Comisiynydd :-

- (a) sy'n nodi neu'n cyfeirio at un neu ragor o safonau a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), ac
- (b) sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â'r safon neu â'r safonau a nodir neu y cyfeirir ati neu atynt.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio a roddir i berson.

Nid yw'r ffaith bod safon yn benodol gymwys i berson yn golygu bod dyletswydd arno i gydymffurfio â'r safon honno. Dim ond os bydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person, a bod yr hysbysiad hwnnw'n ei gwneud hi'n ofynnol i gydymffurfio â safon ar ddiwrnod gosod, y bydd y ddyletswydd honno mewn grym.

Cyn rhoi hysbysiad cydymffurfio i berson, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ymgynghori â'r person. Nid yw methiant y person i gymryd rhan mewn ymgynghoriad yn atal y Comisiynydd rhag rhoi hysbysiad cydymffurfio i'r person hwnnw.

Wedi i Gomisiynydd y Gymraeg roi hysbysiad cydymffurfio i berson, caiff y person hwnnw wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddo ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon honno, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Pe bai'r Comisiynydd yn hysbysu person nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon yn afresymol neu'n anghymesur, rhoddir hawl yn y Mesur iddo apelio i'r Tribiwnlys er mwyn dod i ddyfarniad.

Meini prawf Comisiynydd y Gymraeg

Wrth ddod i farn ar bwnc yr ymchwiliad safonau hwn, yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rhan 4, Pennod 8 y Mesur, ystyriwyd y meini prawf canlynol ochr yn ochr â'r dystiolaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymchwiliad safonau. Nid oes rhaid ystyried pob maen prawf ymhob achos, ac nid oes unrhyw un o'r meini prawf yn bwysicach na'i gilydd.

- A yw'r person perthnasol yn agored i orfod cydymffurfio â safonau – a yw'r person perthnasol yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8?
- A yw'r dosbarth o safon (cyflenwi gwasanaethau; llunio polisi; gweithredu; cadw cofnodion; hybu) yn gymwysadwy i'r person perthnasol?
- A yw'r person perthnasol yn gwneud y gweithgaredd dan sylw?⁴
- A yw'r person perthnasol eisoes wedi ymrwymo i ddarparu'r gweithgaredd, neu'r weithred dan sylw, yn rhannol neu'n llawn, drwy ei gynllun iaith Gymraeg?
- A yw'r person perthnasol eisoes yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg (boed hynny'n cyfateb i'r union ofynion sydd ynghlwm wrth y safon ai peidio), neu'n gwneud y gweithgaredd yn unol â'r safon?
- A yw mwyafrif helaeth y personau perthnasol eraill o fewn yr un sector yn darparu'r gwasanaeth yn Gymraeg, neu'n gwneud y gweithgaredd?
- A oes unrhyw resymau eraill yn erbyn, neu o blaid gwneud y safon yn benodol gymwys i'r person perthnasol?

⁴ Ystyrir y maen prawf hwn yng nghyswllt safonau cyflenwi gwasanaethau yn unig

4 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol

Derbyniwyd tystiolaeth gan bob person perthnasol a enwir yn adran 2 o'r adroddiad safonau hwn. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys ymatebion i 190 o gwestiynau mewn holiadur, yn ogystal â thystiolaeth bellach a ddarparwyd yn sgil ymholiadau dilynol.

Darllenwyd pob ymateb yn unigol a defnyddiwyd meddalwedd i gofnodi a dadansoddi'r testun ac i ganfod themâu cyffredinol. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd ymhlith swyddogion Comisiynydd y Gymraeg er mwyn dadansoddi'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bersonau perthnasol a oedd yn rhan o'r ymchwiliad safonau, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw.

Darperir yn yr adran hon ganran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau perthnasol dan sylw sy'n cyfateb i'r safonau (boed hynny'n cyfateb â'r union ofynion sydd ynghlwm â'r safonau ai peidio) ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yn erbyn y safonau, dylid nodi nad oedd modd paru nifer o'r safonau mewn perthynas â gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau, a hynny oherwydd natur fanwl y rheoliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl bod y personau perthnasol dan sylw yn ymrwymo neu'n cydymffurfio â'r gofyniad, ond nid yw hwnnw wedi ei ddatgan yn benodol yn eu cynlluniau iaith Gymraeg.

Yn adran 4 o'r adroddiad hwn, rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau o bersonau a nodir. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa weithgareddau a wneir gan y personau dan sylw, pa weithgareddau maent yn eu gwneud trwy'r Gymraeg ac i ba raddau y maent yn gallu cydymffurfio â'r safonau.

Lle bo unrhyw gyfeiriadau at safonau yn yr adroddiad safonau hwn, cyfeirir at y safonau a bennwyd yn y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014.

Corfforaethau Addysg Bellach

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1–7]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth.⁵

Roedd 4 o'r 10 (40%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, sef Grŵp NPTC, Coleg Sir Benfro, Coleg Gwent a Choleg Cambria.

Bu i Grŵp Llandrillo Menai nodi ei fod yn gweithredu safon 2 eisoes wrth roi cynllun iaith Gymraeg y Coleg ar waith. O'r herwydd, nid oedd yn gweld safonau 4 a 5 yn berthnasol.

Mynegwyd pryder ynghylch dosbarthu pob darn o ohebiaeth yn ddwyieithog gan Goleg y Cymoedd, Coleg Penybont, Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Catholig Dewi Sant. Cyfeiriodd Coleg y Cymoedd yn benodol at y ffaith ei fod yn gohebu'n ddwyieithog â myfyrwyr a'u rhieni, ond nad oedd pob gohebiaeth yn ddwyieithog. Adnoddau oedd yn gyfrifol am bryderon y personau yma, boed yn gost ariannol neu'n ychwanegiad sylweddol at lwyth gwaith staff â chyfrifoldeb cyfieithu.

Roedd Coleg Penybont o'r farn y byddai safon 3 yn anodd ei gweithredu, o ystyried trosiant parhaus o ran myfyrwyr. Yn debyg iawn, mynegwyd pryder gan Goleg Caerdydd a'r Fro ynghylch safon 2. Roedd o'r farn ei bod yn afresymol ac yn anghymesur cadw cofnod o ddewis iaith pob cyswllt oherwydd nifer y bobl mae'r Coleg yn cysylltu â hwy.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8–22]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 59% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁶

Roedd 2 o'r 10 (20%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, sef Coleg Sir Benfro a Choleg Cambria. Bu i Goleg Sir Benfro nodi, mewn perthynas â safonau 10, 19 a 21, ei fod yn rhag-weld y byddai'n anodd iawn iddo ddarparu gwasanaeth Cymraeg pe bai galwad o natur dechnegol, lle nad oes staff sy'n siarad Cymraeg yn yr adran honno.

⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cyfeiriodd nifer o bersonau at drafferthion posib o ran darparu gwasanaeth Cymraeg oherwydd nifer y staff â sgiliau iaith Gymraeg o fewn eu sefydliadau. Nodwyd hyn fel rheswm dros gasglu nad oedd y safonau hyn yn rhesymol a chymesur yn achos:

- Coleg Gŵyr Abertawe (cyfeiriwyd at safonau 18–21);
- Coleg Penybont (safonau 18–21);
- Grŵp NPTC (safonau 18–21);
- Coleg y Cymoedd (eto, safonau 18–21 gyda chyfeiriad hefyd at safon 22, sydd, yn ei dyb ef, yn anymarferol i sefydliad o'i faint ef ei weithredu);
- Coleg Gwent (safonau 9–11, 17–19, 21).

Roedd Coleg Catholig Dewi Sant yn rhagweld trafferthion gyda safonau 10, 18, 19, 20 oherwydd sgiliau iaith staff. Parthed safon 14, eglurwyd nad oes datganiad yn croesawu galwadau Cymraeg, ond bod switsfwrdd y Coleg yn cynnig dewis iaith cyn parhau â'r alwad.

Cyfeiriodd Coleg Caerdydd a'r Fro at lefelau sgiliau iaith Gymraeg staff mewn perthynas â safon 10. Nodwyd hefyd nad oedd dangosyddion perfformiad yn eu lle ar gyfer gweithredu safon 15, mater a godwyd gan Goleg Gwent hefyd. Barn Coleg Caerdydd a'r Fro oedd fod safon 17 yn afresymol y tu hwnt i oriau arferol y brif swyddfa, a bod safon 21 yn anghymesur ac yn afresymol. Dylid nodi bod Coleg Caerdydd a'r Fro wedi mynegi parodrwydd i ystyried arfer da ymysg eraill gyda'r bwriad o weld sut y byddai modd rhoi'r safon hon ar waith.

Gan barhau i drafod sgiliau iaith staff, eglura Grŵp Llandrillo Menai nad oedd yn gweld modd iddo gydymffurfio â safonau 10, 11, 18 nac 19 gan fod y Grŵp yn cynnig ystod helaeth o wasanaethau, rhai ohonynt yn arbenigol, ac nad oedd modd sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael ym mhob achos. Cyfeiriwyd hefyd at safon 9, a'r ffaith ei fod yn ateb galwadau yn Gymraeg. Yn nhyb Grŵp Llandrillo Menai, roedd hyn yn ei hun yn amlygu'r ffaith fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mynegwyd pryderon ynghylch safon 21 gan nodi nad oedd yn bosib i staff di-Gymraeg gydymffurfio â'r safon, tra cred y Grŵp ei bod yn ffordd annaturiol iawn i siaradwyr Cymraeg wneud galwadau ffôn.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23–29]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (70%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Catholig Dewi Sant oedd y personau a nododd nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd hwn yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 42% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁷

Coleg Cambria oedd yr unig gorfforaeth a ystyrai y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd..

Nododd Coleg y Cymoedd a Choleg Gŵyr Abertawe fod aneglurder yn parhau yn eu barn hwy ynghylch yr union ddiffiniad o gyfarfod yng nghyd-destun y safonau hyn. Cyfeiriodd Coleg Penybont at aneglurder o ran diffiniad safon 27, yn ei farn ef. Roedd cost ac ymarferoldeb gweithredu'r safonau hyn yn fater a godwyd gan y colegau uchod, gan ystyried eu cwmpas posib.

Nododd Grŵp NPTC mai prin oedd y galw am gynnal cyfarfodydd o'r math hwn, boed yn Gymraeg neu â chymorth trefniant cyfieithu. O ganlyniad, dywedodd y Grŵp nad oes ganddo adnoddau i ddarparu cyfleuster cyfieithu, neu i dalu am wasanaeth.

Eglurodd Coleg Gwent mai prin oedd nifer y staff a allai cynnig gwasanaeth fel a ddynodwyd yn safonau 23–29. Ar sail cost, dywedwyd na fyddai modd i'r Coleg gydymffurfio â safonau 23, 25, a 27D.

Roedd rhai o'r safonau yma'n peri pryder i Goleg Sir Benfro, gan gyfeirio at safonau 23 a 27 yn benodol yn ei ymateb. Gan ddibynnu ar natur y cyfarfod, rhagwelwyd y gallai cynnal rhai cyfarfodydd heb gyfieithu fod yn anodd (safon 23). Mynegwyd y farn fod safon 27 yn ymddangos yn heriol a beichus i'w gweithredu a'i monitro.

Yn debyg i Goleg Sir Benfro, nid oedd Coleg Caerdydd a'r Fro o'r farn y byddai'n bosib iddo ddarparu yn unol â safon 23 heb gymorth cyfieithu. Ychwanegodd Coleg Caerdydd a'r Fro a Choleg Catholig Dewi Sant nad oeddent yn rhagweld y gellir cydymffurfio â nifer o'r safonau am yr un rheswm.

Roedd Grŵp Llandrillo Menai am dynnu sylw at y ffaith ei fod yn gweld nifer o ragdybiaethau ymhlyg yn y safonau hyn. Nodwyd eu bod eu bod fel petaent yn anwybyddu'r ffaith fod nifer yn byw a gweithio'n naturiol ddwyieithog, ac wedi arfer ymdrin â chyfarfodydd gyda mynychwyr Cymraeg a Saesneg eu hiaith. Gan ystyried hyn, nid oedd yn gweld y defnydd o ganrannau (27A, B ac C) yn ddefnyddiol. Rhagdybiaeth arall, ym marn Grŵp Llandrillo Menai, oedd y byddai modd galw ar wasanaeth cyfieithu ar unrhyw adeg heb ystyried goblygiadau ymarferol nac ariannol hynny.

Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30–34]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 6 pherson perthnasol (60%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Adroddodd Coleg Penybont, Coleg y Cymoedd, Coleg Sir Benfro, a Choleg Catholig Dewi Sant nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 80% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁸

Eglurodd nifer o'r personau fod y rhan fwyaf o'r gofynion hyn eisoes ar waith drwy weithredu cynlluniau iaith Gymraeg.

Roedd 8 o'r 10 (80%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Catholig Dewi Sant a Choleg Gwent oedd y ddau nad oedd yn eu hystyried yn rhesymol a

⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

chymesur.

Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant at safonau 31, 32 a 33, gan nodi nad oedd darpariaeth ar gael ganddynt ar hyn o bryd. Parthed safon 31, eglurwyd mai hysbysebion a gynhyrchir yn hytrach na gwahoddiadau, ond bod hysbysebion yn cael eu paratoi'n ddwyieithog. Ar gyfer safonau 32 a 33, nid oedd gan y Coleg y gallu i gynnig cyfieithu ar y pryd. Fodd bynnag, nodwyd paroddrwydd i ail-ystyried y sefyllfa yn y dyfodol.

Safonau 33 a 34 oedd yn peri pryder i Goleg Gwent, a hynny ar sail cost, a allai yn ei dro arwain at gwestiwn ynghylch hyfywedd ambell gyfarfod, ym marn y Coleg.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35–36]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 8 person perthnasol (80%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Adroddodd Coleg Sir Benfro a Choleg Catholig Dewi Sant nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 85% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁹

Roedd 8 o'r 10 (80%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Catholig Dewi Sant a Choleg Gwent oedd y ddau nad oedd yn eu hystyried yn rhesymol a chymesur.

Eglurodd Coleg Sir Benfro bod safon 35 ar waith ganddo i raddau helaeth. Er hynny, bu iddo gydnabod bod angen gwaith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â safon 36.

Nododd Coleg Catholig Dewi Sant nodi ei fod yn gweithredu safon 35, ac yn datblygu darpariaeth yn unol â safon 36. Fodd bynnag, roedd o'r farn na fyddai modd iddo gydymffurfio'n llawn â'r safon am y rheswm ei bod tu hwnt i'w allu. Nodwyd nad yw pob cyhoeddiad ar gael yn ddwyieithog, ond yn hytrach bod nifer ohonynt ar gael yn Gymraeg os gwneir cais amdanynt. Yn ogystal, cred y Coleg nad oes ganddo nifer digonol o staff â sgiliau iaith Gymraeg i allu darparu pob math o wasanaeth yn Gymraeg ym mhob digwyddiad.

Yn yr un modd, roedd Coleg Gwent o'r farn y byddai'r gost o weithredu safon 36 yn llawn yn afresymol.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff

Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safon a bennir yn y rheoliadau drafft ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.¹⁰

Roedd 8 o'r 10 (80%) yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Catholig Dewi Sant, a Choleg Gwent oedd y ddau nad oedd yn ystyried gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Yn gyffredinol, nodwyd bod y safon hon eisoes yn weithredol, a hynny o ganlyniad i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg. Er hynny, roedd cost gweithredu'r safon yn llawn yn fater a godwyd gan Goleg Catholig Dewi Sant a Choleg Gwent. Rhyw gymaint yn unig o ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu sydd yn ddwyieithog ar hyn o bryd, adroddodd Coleg Gwent. Ei ragdybiaeth oedd y byddai angen cynyddu'r gwariant ar adnoddau, hysbysebu, cyfieithu a staffio i gwrdd â'r safon yn llawn.

Cytuna Coleg Catholig Dewi Sant y byddai costau ychwanegol ynghlwm wrth weithredu'r safon. Fodd bynnag, nododd y Coleg ymhellach ei fod yn hysbysebu ar fysiau ac ar y teledu yn Saesneg yn unig ar sail cost, ond hefyd ar sail dewis marchnad darged y Coleg.

Tynnodd Coleg Sir Benfro sylw at hysbysebion ac erthyglau yn y wasg cyfrwng Saesneg a baratowyd yn Saesneg yn unig, fel maes y byddai angen ei ystyried.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38–39]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 9 person perthnasol (90%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arddangos deunydd yn gyhoeddus.¹¹

Roedd 9 o'r 10 (90%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nid oedd Coleg Gwent o'r un farn, a hynny ar sail goblygiadau cost a'r cynnydd mewn adnoddau y byddai eu hangen er mwyn sicrhau gweithredu safon 38 yn llawn.

Adroddodd Coleg Catholig Dewi Sant nad oedd yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg ar hyn o bryd, ond bod y ddarpariaeth yn cael ei datblygu.

Cymerodd Grŵp Llandrillo Menai'r cyfle i egluro bod gwaith myfyrwyr yn cael ei arddangos yn yr iaith y cawsai ei baratoi, a byddai'n anymarferol ceisio dangos gwaith yn y ddwy iaith.

¹⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹¹ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40–49]**

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.¹²

Roedd 5 o'r 10 (50%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Gwent, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Sir Benfro oedd y pum person nad oedd yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Roedd Coleg Sir Benfro yn rhag-weld y byddai cyflawni safonau 41 a 44 yn heriol iddo, a hynny oherwydd swmp y ddogfennaeth dan sylw a'r ffaith ei bod yn cael ei chynhyrchu mor aml. Ym marn y Coleg, byddai angen cyflogi adnodd ychwanegol er mwyn cydymffurfio, rhywbeth oedd yn anodd yn y sefyllfa gyllidol bresennol. Tynnwyd sylw at gostau ychwanegol y safonau hyn gan Goleg Gwent, Grŵp NPTC a Choleg Gŵyr Abertawe hefyd, er i Grŵp NPTC gasglu yn y pen draw y byddai'r safonau hyn yn rhesymol a chymesur iddo.

Eglurodd Coleg Catholig Dewi Sant nad yw'r adnoddau cyfieithu ar gael ganddo i gydymffurfio â safon 41. Roedd hefyd yn rhag-weld adegau pan na fyddai modd iddo gydymffurfio'n llawn â safon 43, a hynny oherwydd pwysau amser neu gyllid. Nid oes gan y Coleg ddarpariaeth i gydymffurfio â safon 46; eglurodd y Coleg nad yw'n cyhoeddi datganiadau i'r wasg.

Fe dynnodd Coleg Caerdydd a'r Fro a Choleg y Cymoedd sylw at y ffaith bod nifer o'r tystysgrifau a roddir i fyfyrwyr yn rhai a ddarperir gan sefydliadau eraill sydd yn berchen ar gymhwyster (safon 42). Oherwydd hyn, roedd Coleg Caerdydd a'r Fro o'r farn nad oedd y safonau hyn yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50–51]**

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 9 person perthnasol (90%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 70% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.¹³

Roedd 8 o'r 10 (80%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg y Cymoedd a Choleg Caerdydd a'r Fro oedd y ddau nad oedd yn eu hystyried yn rhesymol a chymesur.

¹² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Nododd Coleg Penybont nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg, a hynny oherwydd safon 51 yn bennaf. Bu i'r Coleg nodi bod ffurflenni a baratowyd yn ganolog ar gael yn ddwyieithog neu yn Gymraeg a Saesneg ar wahân. Cyfeiriodd nifer o bersonau at faterion oedd yn gysylltiedig â gweithredu safon 51, megis ystyriaethau ymarferol a chyllid wrth roi'r safon ar waith.

Cyfeiriodd dau goleg yn benodol at y defnydd o feddalwedd, neu systemau gwybodaeth a ddefnyddir ar gyfer y broses gofrestru, gan nodi nad yw'r systemau yma'n cael eu gweinyddu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52–57]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 63% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.¹⁴

Roedd 7 o'r 10 (70%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Sir Benfro, Coleg Gwent a Choleg Caerdydd a'r Fro oedd y rhai nad oedd yn eu hystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cyfeiriodd Coleg Caerdydd a'r Fro at ei ymrwymiad presennol, dan gynllun iaith Gymraeg y Coleg, i gael gwefan ddwyieithog erbyn Mawrth 2015. Yr unig eithriad i hynny fyddai'r tudalennau gwybodaeth ar gyrsiau. Dywed y Coleg fod yr wybodaeth hon yn dod o gronfa ddata ganolog nad yw ar gael yn Gymraeg, ac na fyddai'n rhesymol a chymesur datblygu'r system hon. Nid oedd y Coleg ychwaith yn credu ei fod yn rhesymol a chymesur gweithredu safon 57, gan nad oedd o'r farn fod rhyngwyneb ap bob amser yn ei fenthyg ei hun i redeg yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Nododd Coleg Catholig Dewi Sant fod apiau wedi'u datblygu gan y Coleg, ond bod angen eu diweddarau. Nododd y Coleg y byddai datblygu'r ap i weithio yn Cymraeg a Saesneg yn digwydd pan fyddai'r ap yn cael ei ddiweddarau mewn modd ehangach.

Nid oedd Coleg Gwent yn gweld bod safonau 55 a 56 yn berthnasol iddynt gan fod gwefannau Cymraeg a Saesneg y Coleg ar wahân. Roedd Grŵp Llandrillo Menai a Choleg y Cymoedd hefyd o'r farn fod safon 55 yn ddianghenraid, yn enwedig os yw'r wefan yn gweithio'n effeithiol. Bu i Goleg Gwent hefyd nodi y byddai costau cyfieithu ychwanegol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Cyfeiriodd Coleg Gŵyr Abertawe at ystyriaethau ymarferol wrth geisio sicrhau gwefan gwbl ddwyieithog, megis eitemau newyddion a ychwanegwyd i'r wefan. Yn yr un modd, cyfeiriodd Grŵp NPTC a Choleg Sir Benfro at gostau sylweddol y byddai'n rhaid eu talu'n rheolaidd er mwyn cynnal a chadw'r holl wefan yn gyson gwbl ddwyieithog.

¹⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd..

**Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff
Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58–60]**

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir gan gorff.¹⁵

Roedd 9 o'r 10 (90%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Gwent, am resymau a amlinellir isod, oedd yr un nad oedd o'r un farn â'r gweddill.

Nid oedd Coleg Gwent yn rhagweld y byddai'n bosibl i bob arwydd dros dro a godwyd ym mhob un o leoliadau'r Coleg fod yn Gymraeg a Saesneg. Cyfeiriodd Coleg Catholig Dewi Sant at arwyddion mewnol gan nodi na fyddai'r arwyddion hyn yn ddwyieithog ar bob achlysur. Eglurodd y Coleg ei fod yn gweithio ar ganfod achosion o'r fath ac yn creu templedi ar eu cyfer.

**Gweithgaredd 12: Derbyni ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61–66]**

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 9 person perthnasol (90%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Coleg Catholig Dewi Sant adroddodd nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 29% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.¹⁶

Roedd 5 o'r 10 (50%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Gwent, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Penybont oedd y pum person nad oedd yn eu hystyried yn rhesymol a chymesur.

Cadarnhaodd Coleg Catholig Dewi Sant nad oedd ganddo ddarpariaeth mewn lle i gydymffurfio â safonau 62 a 65.

Cyfeiriodd Coleg Gwent at safon 62A yn benodol gan egluro ei fod o'r farn y byddai'n afresymol iddo gydymffurfio â'r safon hon oherwydd diffyg sgiliau presennol yn ogystal â goblygiadau cyllidol cyflogi mwy o staff.

Derbyniwyd sylwadau tebyg gan Goleg Penybont, Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Caerdydd a'r Fro hefyd. Cyfeiriant at oblygiadau staffio a chyllid er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth bresennol i'r hyn fyddai ei angen i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn y dderbynfa.

Er i Goleg Sir Benfro, Grŵp NPTC, a Choleg y Cymoedd nodi bod gwneud y safonau'n benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, tynnwyd sylw at y ffaith fod angen

¹⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

gwaith pellach arnynt er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn. Ychwanegodd Coleg y Cymoedd ei fod o'r farn nad oedd safon 62 yn rhesymol a chymesur oherwydd maint y gweithgaredd a'r ffaith nad oedd yn ymarferol gweithredu'r safon, yn ei dyb ef.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67–68]**

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 40% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.¹⁷

Roedd 8 o'r 10 (80%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Catholig Dewi Sant, a Choleg Gwent oedd y ddau nad oedd yn eu hystyried yn rhesymol a chymesur.

Yn gyffredinol, eglurwyd bod y rhan fwyaf o'r gweithgaredd eisoes yn digwydd o ganlyniad i weithredu cynlluniau iaith Gymraeg, er efallai fod angen ychydig o waith datblygu pellach er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn.

Eglurodd Coleg Catholig Dewi Sant na fyddai modd iddo sicrhau hysbysiadau swyddogol dwyieithog yn y tymor byr, ond bod darpariaeth yn cael ei datblygu. Mater o amserlen ar gyfer gweithredu oedd pryder y Coleg felly.

Cyfeiriodd Coleg Gwent at ddefnydd o hysbysiadau amserlen a gynhyrchid i'r Coleg gan drydydd parti. Adroddodd y Coleg fod y trydydd parti yn defnyddio system nad oedd ar gael yn ddwyieithog ac mai costus ac anodd fyddai dod o hyd i ddewis amgen.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69–73]**

Nododd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (71%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 53% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.¹⁸

Adroddodd Coleg Cambria, Coleg y Cymoedd a Grŵp NPTC nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd. O'r gweddill, nododd Coleg Sir Benfro a Choleg Penybont nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd yn Gymraeg.

Mynegwyd barn ar resymoldeb a chymesuredd y safonau gan bob corfforaeth. Roedd 6 o'r 10 (60%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Coleg Gwent, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd a Grŵp NPTC oedd y personau nad oedd yn eu hystyried yn rhesymol a chymesur iddynt.

¹⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

¹⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Dylid nodi i wahaniaeth o ran dehongli'r safon hon ddod yn amlwg o'r ymatebion. Eglurodd Grŵp NPTC nad oedd yn dyfarnu ar geisiadau am grantiau, ond ei fod yn cynnig cymorth ariannol i fyfyrwyr. Bu i eraill nodi eu bod yn gwneud y gweithgaredd – Coleg Caerdydd a'r Fro, a Choleg Sir Benfro, er enghraifft – gan gyfeirio at Gronfa Ariannol Wrth Gefn, ynghyd â grantiau cymorth ariannol eraill.

Adroddodd Coleg Caerdydd a'r Fro nad oedd modd iddo gydymffurfio â safon 71 heb wasanaeth cyfieithu. Cred Coleg Gwent fod y safon hon yn afresymol oherwydd cost cyflogi aelod staff o'r newydd i ddarparu gwasanaeth y mae ychydig iawn o alw amdano. Ychwanegodd Coleg Gwent ei fod o'r farn fod safon 72 yn anghymesur hefyd, o dafoli cost yn erbyn y galw.

Er i Goleg Catholig Dewi Sant nodi ei fod yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, nodwyd nad oedd darpariaeth ar gael i gydymffurfio â safonau 71 a 72 mewn perthynas â chyfweliadau am ysgoloriaeth ar hyn o bryd.

Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74–78]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 48% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.¹⁹

Roedd 3 o'r 10 (30%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, sef Coleg Catholig Dewi Sant, Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria.

Ym marn Coleg Gwent, roedd modd iddo gydymffurfio â nifer o'r safonau. Fodd bynnag, nid oedd yn gweld safonau 76 a 77 yn gyraeddadwy heb gyflogi aelod cymwys o staff, a hynny am gost sylweddol. Nodwyd hefyd y byddai'r gost o orfod cydymffurfio â safon 77 yn afresymol, yn nhyb y Coleg.

Eglurodd Coleg Caerdydd a'r Fro ei fod yn rhag-weld oedi cyn darparu cyfieithiad mewn perthynas â safon 75A, ac eglurwyd na fyddai modd iddo weithredu safon 76 heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Mynegodd Coleg y Cymoedd yr un pryder, sef na fyddai ganddo'r adnodd i weithredu safon 76 heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. Ymhellach, codwyd pryderon ganddo ynghylch y defnydd o gyfieithu mewn perthynas â thendrau, a'r ystyriaethau cyfrinachedd sy'n deillio o gyfieithu ceisiadau, yn marn y Coleg. Fe wnaeth y Coleg hefyd ddatgan ei fod o'r farn y dylai tendrau ar gyfer gwaith ystadau bach gael eu hepgor o'r safonau.

Safon 76 oedd y rhwystr i Grŵp NPTC. Nid oedd y Grŵp yn gweld modd o'i chyflawni heb i'r geiriau 'heb gyfieithu' [sic] gael eu dileu o'r gofyniad.

¹⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Er iddo nodi ei fod yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur, nododd Coleg Catholig Dewi Sant nad oedd y gallu ganddo yn fewnol ar hyn o bryd ar gyfer cydymffurfio â safonau 76 a 77.

Nid oedd Coleg Sir Benfro o'r farn y gellid cyflawni'r safonau oherwydd natur arbenigol caffael a manylion technegol, cyfreithiol sydd wedi'u cynnwys mewn dogfennau o'r fath.

Gwnaeth Colegau Penybont a Gŵyr Abertawe sylw cyffredinol mewn perthynas â'r safonau hyn, sef eu bod o'r farn fod angen amser, adnoddau a sgiliau iaith mewnol sylweddol er mwyn cydymffurfio â hwy.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff

Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79–80]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 9 person perthnasol (90%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 65% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.²⁰

Sylw cyffredinol a wnaed gan bersonau wrth ymateb oedd fod y gweithgaredd hwn eisoes ar waith, neu'n cael ei ddatblygu ymhellach, yn sgil gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg.

Roedd y 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach yn gytûn fod gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff

Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.²¹

Roedd y 10 person perthnasol o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach yn gytûn fod gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

²⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

²¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 18: Cyrsiâu a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82-84]**

Nododd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 6 pherson perthnasol (75%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.

Roedd 2 o'r 10 (20%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, sef Coleg Cambria a Choleg Gwent.

Daeth yn bur amlwg fod cryn anhawster wrth ddehongli pwrpas a chwmpas y safonau hyn. Y thema gyffredin a nodwyd yn yr ymatebion a oedd yn dadlau yn erbyn gwneud y safonau yma'n benodol gymwys iddynt oedd darparu'r cwricwlwm cyfan yn ddwyieithog. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder mewn perthynas â chyrsiâu a ddarperir gan gorff wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

**Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff
Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]**

Nododd 2 o'r 10 person perthnasol (20%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Bellach eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, ni nododd yr un o'r personau perthnasol ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 20% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.²²

Roedd 6 o'r 10 (60%) yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, sef Coleg Cambria Coleg Gwent, Grŵp NPTC, Coleg Sir Benfro, Coleg Penybont, a Grŵp Llandrillo Menai.

Adroddodd Coleg Sir Benfro nad yw'r safon ar waith ar hyn o bryd, ond fe allai'r Coleg, drwy ddarparu hyfforddiant penodol ar gyfer staff y dderbynfa, geisio'i gweithredu. Tebyg iawn oedd sefyllfa Coleg Gŵyr Abertawe. Nodwyd mai ar un o'i gampysau yn unig y mae offer annerch y cyhoedd, ond nad oes aelod staff ar y dderbynfa sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Cynigiwyd hyfforddiant fel datrysiad hefyd, neu gysylltu ag aelod o staff Cymraeg ei iaith i ddarparu cyhoeddiad.

Materion atodol

**Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi
gwasanaethau [158–163]**

Roedd 5 o'r 10 person perthnasol (50%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, sef Coleg Cambria, Coleg Gwent, Grŵp NPTC, Coleg Sir Benfro, a Choleg Catholig Dewi Sant. Eglurwyd bod y safonau eisoes ar waith, drwy weithredu cynlluniau iaith Gymraeg, neu'n gyraeddadwy gydag ychydig o waith datblygu.

²² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Fodd bynnag, nododd Coleg y Cymoedd nad oedd yn gweithredu ar sail blwyddyn ariannol. Mynegwyd y farn y byddai cadw cofnodion ar sail blwyddyn ariannol yn afresymol ac anghymesur.

Eglurodd Coleg Gŵyr Abertawe a Choleg Penybont y gellid gweithredu'r safonau, ond roeddent o'r farn y byddai'r costau a'r prosesau cysylltiedig â gwneud hynny yn afresymol. Mynegwyd yr angen am gefnogaeth ac amserlen realistig ar gyfer rhoi'r safonau ar waith. Eglurodd Coleg Gŵyr Abertawe ei fod yn rhag-weld anhawster gyda safon 161 oherwydd ei fod wedi'i leoli ar nifer o gampysau.

Safon 161 oedd yn bryder i Goleg Caerdydd a'r Fro hefyd. Cytuna'r Coleg ei bod yn rhesymol iddynt baratoi adroddiad blynyddol, ond fod rhai o ofynion y safon yn afresymol.

Roedd Grŵp Llandrillo Menai o'r farn y byddai'r safonau hyn yn feichus iddo, os nad yn amhosib.

Safonau llunio polisi [86–95]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg y personau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 29% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau llunio polisi.²³

Cadarnhaodd pob person perthnasol fod y gofynion ynghlwm â safonau llunio polisi yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau a'u bod yn gweithredu yn unol â hwy drwy eu cynllun iaith Gymraeg. Cyfeiriodd pob person at asesiadau effaith a gynhaliwyd ganddynt ar effeithiau posib unrhyw bolisiâu newydd neu adolygiadau i bolisiâu.

Cadarnhaodd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) eu bod yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi yn unol â safonau 89–91. Coleg y Cymoedd a Choleg Penybont nododd nad oeddent yn ymgynghori ynghylch unrhyw benderfyniadau polisi mewn perthynas â'r safonau hyn.

Cadarnhaodd 4 o'r 10 person perthnasol (40%), sef Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, Coleg Cambria a Choleg Sir Benfro fod ganddynt bolisi dyfarnu grantiau ar hyn o bryd.

Roedd 8 o'r 10 (80%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â llunio polisi yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164–169]

Cadarnhaodd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nodwyd yn yr ymatebion fod y safonau eisoes ar waith, drwy weithredu cynllun iaith Gymraeg, neu y gellid eu cyflawni gydag ychydig o waith datblygu ar drefniadau cyfredol.

Unig wrthwynebiad Coleg y Cymoedd oedd y cyfeiriad yn safon 167 at flwyddyn ariannol. Nodwyd eisoes nad yw'r Coleg yn cadw gwybodaeth ar sail blwyddyn ariannol ac y byddai unrhyw ofyniad i wneud hynny'n afresymol ac yn anghymesur oherwydd hynny.

²³ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau gweithredu [96-142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96–109]

Nododd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) eu bod yn gweithredu polisi ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. O'r rhai hynny, nododd 4 o'r 6 pherson perthnasol (67%) eu bod wedi cyhoeddi'r polisi hwnnw ar eu mewnwyd. Adroddodd Coleg Gwent, Coleg Catholig Dewi Sant a Choleg Caerdydd a'r Fro eu bod yn rhag-weld bod modd iddynt gydymffurfio â safon 96.

Mewn perthynas â'r dogfennau sy'n gysylltiedig â safonau 97–102 nododd 3 o'r 10 person perthnasol (30%) ei bod yn arfer cyfredol ganddynt i gynnig darparu'r holl ddogfennau ynghlwm â'r safonau hyn yn Gymraeg. Detholiad o'r dogfennau hyn sydd ar gael yn ddwyieithog ar hyn o bryd gan Goleg y Cymoedd, Coleg Gwent a Choleg Cambria. Er y gellid cydymffurfio â'r safonau hyn gydag adnoddau ychwanegol, nodwyd mai blaenoriaeth adnoddau cyfieithu'r sefydliad fyddai deunydd ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. O blith y 7 person a nododd nad oedd cynnig i weithwyr ddewis derbyn dogfennau yn Gymraeg, nododd 6 eu bod yn cynnig detholiad o'r ddogfennaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, ac eto rhagwelwyd y byddai modd ehangu ar y ddarpariaeth.

Nododd 3 o'r 10 person perthnasol (30%) ei fod yn arfer cyfredol ganddynt gydymffurfio'n rhannol neu'n llawn â'r gofynion ynghlwm â safonau 103–109. Cynigia Grŵp Llandrillo Menai'r polisiâu cysylltiedig yn ddwyieithog eisoes; mae detholiad ar gael gan Goleg Cambria; ac mae Coleg y Cymoedd wedi dechrau cyhoeddi polisiâu newydd a diwygiedig yn ddwyieithog. Roedd 6 o'r 7 person (86%) wedi nodi bod y safonau hyn yn cael eu datblygu ymhellach, neu y gellid gwneud hynny. Codwyd ambell bryder gan rai ymatebion, gyda Choleg Gwŷr Abertawe'n tynnu sylw at y ffaith nad oedd siaradwyr Cymraeg o fewn yr adran Adnoddau Dynol.

Eglurodd Coleg Catholig Dewi Sant ei fod yn defnyddio llawlyfr y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar amodau gwasanaeth staff addysgu mewn colegau chweched dosbarth ('The National Joint Council's Teaching Staff in Sixth Form Colleges Conditions of Service Handbook'), yn hytrach na pharatoi ei bolisiâu ei hun. Cyfeiriad penodol at safon 99 oedd gan Goleg Penybont, a'r ffaith ei fod yn defnyddio system ar-lein ar gyfer datblygiad personol. Yn ôl y Coleg, nid yw darparwr y system yn cynnig fersiwn Cymraeg. Yn fwy cyffredinol, nodwyd gan sawl person y byddai sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau drwy ddarparu'r polisiâu hyn yn ddwyieithog yn golygu y byddai angen adnoddau ychwanegol, neu'n arwain at gost ychwanegol.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110–113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 6% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.²⁴

Cadarnhaodd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) eu bod yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwynion iddynt yn Gymraeg, ac ymateb i unrhyw gŵyn yn Gymraeg. O'r 7 person perthnasol – Coleg y Cymoedd, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Sir Benfro, Coleg Cambria, Coleg Gwent, Grŵp Llandrillo Menai, a Choleg Catholig Dewi Sant – dim ond 4 ohonynt (40%), sef Colegau Sir Benfro, Gwent, Catholig Dewi Sant a Grŵp Llandrillo Menai, sydd yn hysbysu staff bod modd iddynt wneud yr uchod yn Gymraeg. Nododd Coleg Gwŷr

²⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Abertawe, Coleg Penybont, a Grŵp NPTC nad oedd modd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y broses gwyno fewnol ar hyn o bryd.

Wrth dderbyn cwyn gan aelod o'r staff neu ynghylch aelod o'r staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw, nododd 3 o'r 10 person perthnasol (30%) – sef Coleg Sir Benfro, Coleg Cambria, a Grŵp Llandrillo Menai – eu bod yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ar hyn o bryd, ac yn gofyn i'r aelod o staff a hoffai ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Nododd Coleg Cambria nad oedd ar hyn o bryd yn gallu cynnal y cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.

Ar y cyfan, mynegwyd parodrwydd i weithredu safonau 110–113, os nad oeddent yn llwyr weithredol eisoes, fel yn achos Grŵp Llandrillo Menai. Cyfeiriodd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) at safon 111, a'r elfen benodol o gynnal cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. Nid oedd hwn yn ofniad y gallai'r 7 gydymffurfio ag ef ar hyn o bryd. Mynegodd Coleg Gwent y safbwynt y byddai gweithredu safon 112 yn afresymol o gostus iddo, a nododd Coleg Catholig Dewi Sant nad oedd y gallu o fewn y Coleg i weithredu safonau 111 a 112.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114–117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 6% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.²⁵

Roedd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) yn adrodd eu bod yn caniatáu i bob aelod o'r staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn yn Gymraeg, sef Coleg Gwent, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Coleg Gwŷr Abertawe, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Fodd bynnag, Coleg Gwŷr Abertawe, Coleg y Cymoedd a Grŵp Llandrillo Menai (30%) yn unig oedd yn hysbysu staff fod modd gwneud hynny yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Wrth drefnu cyfarfod gydag aelod o staff ynghylch achos disgyblu, nododd 3 o'r 10 person perthnasol (30%) eu bod yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ar hyn o bryd, gyda phob un o'r 3 yn gofyn i'r aelod o staff a hoffai ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. O'r 3 pherson perthnasol – Grŵp Llandrillo Menai, Coleg Cambria, a Choleg y Cymoedd – dim ond Grŵp Llandrillo Menai oedd yn gallu cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, heb gymorth gwasanaeth cyfieithu. Roedd Coleg Cambria a Choleg y Cymoedd yn gallu darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Yn gyffredinol, gwelwyd bod trefniadau eisoes ar gael, yn cael eu datblygu, neu y gellid eu datblygu ar gyfer cydymffurfio â safonau 114–117. Un pryder amlwg a fynegwyd oedd diffyg gallu nifer o gorfforaethau addysg bellach i gynnal cyfarfodydd heb gymorth gwasanaeth cyfieithu (safon 115). Yn ategol i hynny, nododd Coleg Cambria nad oedd modd gwarantu panel disgyblu â phob aelod yn siarad Cymraeg ym mhob achos.

²⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118–124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 17% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.²⁶

Nododd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) eu bod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion a gweithwyr. Coleg Gwent a Choleg Penybont oedd y rhai a nododd nad oeddent yn ei darparu ar hyn o bryd.

Roedd 5 o'r 10 person perthnasol (50%) yn darparu rhyngwynebau Cymraeg i staff, sef Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Gwent, Coleg Sir Benfro, Coleg Caerdydd a'r Fro, a Grŵp Llandrillo Menai.

Cadarnhaodd pob person perthnasol (100%) eu bod yn gweithredu system fewnwyd. Roedd 3 o'r 10 person perthnasol (30%) yn darparu tudalennau'r fewnwyd yn Gymraeg, gan gynnwys y dudalen hafan, y rhyngwyneb a'r dewislenni; y rhain oedd Coleg Sir Benfro, Coleg Cambria, a Grŵp Llandrillo Menai. Roedd Coleg y Cymoedd yn cynnig tudalen hafan a dewislenni Cymraeg, a Choleg Gŵyr Abertawe yn cynnig tudalen hafan Gymraeg.

Roedd Coleg Penybont, Coleg Sir Benfro, Coleg Gwent, a Grŵp NPTC am dynnu sylw at y ffaith y gellid darparu mewnwyd ddwyieithog, ond byddai hynny'n golygu cryn dipyn o waith ac adnoddau. Nododd Coleg Caerdydd a'r Fro ei fod o'r farn y byddai'r gwaith a fyddai'n gysylltiedig â chydymffurfio â safonau 119–122 yn afresymol, a hynny am y rheswm y byddai'n well ganddo ddefnyddio'i adnoddau ar gyfer blaenoriaethau'r cwricwlwm. Eglurodd Coleg y Cymoedd nad oedd yn rhag-weld y byddai modd iddo gydymffurfio â safon 124 oherwydd cyfyngiadau ieithyddol y feddalwedd a ddefnyddir.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125–133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 73% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.²⁷

Cadarnhaodd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) eu bod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg eu cyflogeion, gyda Choleg Sir Benfro yn nodi mai dim ond asesu anghenion swyddi lle canfuwyd angen am sgiliau iaith Gymraeg sydd yn digwydd.

Mewn perthynas â gofynion safon 126, nododd Grŵp Llandrillo Menai ei fod yn darparu'r holl hyfforddiant dan sylw yn ddwyieithog. Roedd Grŵp NPTC yn cynnig hyfforddiant ar ddelio â'r cyhoedd yn ddwyieithog, a Choleg Cambria yn cynnig hyfforddiant ymsefydlu dwyieithog. Gan ystyried safon 127, Grŵp Llandrillo Menai yn unig sy'n cynnig yr hyfforddiant hwn yn Gymraeg.

Cadarnhaodd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) eu bod yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol (safon 128); Coleg Catholig Dewi Sant oedd yr unig eithriad. Fodd bynnag, mewn perthynas â safon 129, cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol (100%) eu bod yn darparu hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn i gyflogeion ddatblygu eu sgiliau yn yr iaith.

²⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Wrth ystyried gofynion safonau 130–131, cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol (100%) ei bod hi'n arfer cyfredol ganddynt i ddarparu hyfforddiant i'w cyflogeion er mwyn iddynt feithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ynghyd â dealltwriaeth o'r gofynion sydd arnynt i weithredu yn unol â'u cynllun iaith Gymraeg. Nododd pob person perthnasol (100%) ei bod yn arfer cyfredol ganddynt i ddarparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gydag 8 o'r 10 person perthnasol (80%) yn nodi eu bod yn darparu hyfforddiant er mwyn i gyflogeion feithrin dealltwriaeth am y modd y gellid defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; Coleg Gwent, a Choleg Catholig Dewi Sant oedd yr unig eithriadau.

Mewn perthynas â safon 132, nododd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) eu bod eisoes yn darparu geiriad neu logo ar gyfer negeseuon e-bost i'w cyflogeion sy'n dynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. Coleg Penybont a Grŵp Llandrillo Menai oedd yr eithriadau. Yn yr un modd, roedd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) wedi nodi eu bod eisoes yn cydymffurfio'n llawn neu'n rhannol â gofynion safon 133.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134–138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 51% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.²⁸

Adroddodd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) eu bod yn cynnal asesiad o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg mewn perthynas â swyddi newydd neu swyddi gwag a hysbyseb, gyda'r un eithriad wrthi'n llunio canllaw i staff ar gyfer gwneud hyn ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) eu bod yn datgan mewn hysbyseb swydd fod croeso i unigolion wneud cais am swydd yn Gymraeg ac na fyddai cais yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais yn Saesneg; y rhain oedd Coleg Sir Benfro, Coleg y Cymoedd, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gŵyr Abertawe, a Grŵp NPTC.

Nododd 5 o'r 10 person perthnasol eu bod yn cynnig cyfweliad neu asesiad yn Gymraeg, sef Coleg Sir Benfro, Coleg Cambria, Coleg y Cymoedd, Coleg Gŵyr Abertawe a Grŵp NPTC. Cyfeiriodd Grŵp Llandrillo Menai at Weithdrefn Recriwtio'r Grŵp sydd yn datgan hawl ymgeiswyr i gyfweliad Cymraeg, gan ychwanegu bod swyddi'r Grŵp i gyd yn rhai lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Mae'r Grŵp yn gallu cynnal y mwyafrif o gyfweliadau yn Gymraeg, ond yn nodi y ceir ambell achlysur lle bo gofyn am arbenigedd nad yw efallai ar gael yn Gymraeg. Mewn achosion o'r fath fe ddefnyddir gwasanaeth cyfieithu.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139–141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.²⁹

Cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol (100%) fod arwyddion sy'n cael eu harddangos tu mewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg. O'r rhai hynny, nododd Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Gwent, Coleg Sir Benfro, Coleg Cambria, a Grŵp Llandrillo Menai (50%) mai eu harfer cyfredol yw gosod testun Cymraeg ar arwyddion fel mai hwnnw'n sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

²⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

²⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr un o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.

Nododd 2 o'r 10 person perthnasol (20%) fod cyhoeddiadau dros gyfrwng offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad ar hyn o bryd. Nid oedd yr un ohonynt yn gwneud y cyhoeddiadau hyn yn Gymraeg.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170–175]

Nododd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd Coleg Penybont o'r farn y byddai gweithredu'r safonau hyn yn afresymol oherwydd cost ac amser eu gweithredu, ac ambell eithriad yn unig i'w gweithrediad oedd gan Goleg Caerdydd a'r Fro.

Safonau hybu [143–144]

Nododd Coleg Cambria, Coleg Penybont, a Choleg Sir Benfro eu bod yn cydsynio i'r safonau hybu fod yn gymwysadwy iddynt, a bod gwneud y safonau hybu yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Gwelwyd y safonau hybu yn estyniad ar waith roedd y personau hyn eisoes yn ymgymryd ag ef.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau hybu [176–177]

O'r personau perthnasol hynny a gydsyniai i'r safonau hybu fod yn gymwysadwy iddynt, roedd Coleg Cambria a Choleg Sir Benfro yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Safonau cadw cofnodion [145–157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 62% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cadw cofnodion.³⁰

Roedd 5 o'r 10 person perthnasol (50%), sef Coleg Cambria, Coleg Sir Benfro, Coleg Gŵyr Abertawe, Coleg Catholig Dewi Sant a Choleg Caerdydd a'r Fro, yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd Grŵp NPTC yn rhag-weld trafferthion penodol iawn, sef safonau 152 ac 154. Cyfeiriodd Coleg y Cymoedd unwaith eto at ei farn y byddai cadw cofnodion ar sail blwyddyn ariannol yn afresymol ac anghymesur.

³⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Nododd Coleg Gwent a Choleg Penybont eu bod o'r farn fod cost a baich weinyddol y safonau hyn yn ormod. Sylw tebyg oedd gan Grŵp Llandrillo Menai, ond o'r safbwynt mai'r Gymraeg yw iaith weinyddol a gweithredol y Grŵp. Nodwyd felly y byddai cadw cofnod o alwadau ffôn a chyfarfodydd yn feichus.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178–179]

Roedd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur; sef Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Catholig Dewi Sant, Coleg Sir Benfro, Coleg Cambria a Choleg y Cymoedd.

Fel a nodwyd mewn perthynas â'r safonau cadw cofnodion, roedd Grŵp Llandrillo Menai yn rhag-weld anghymesuredd i sefydliad sy'n gweithredu yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.

Corfforaethau Addysg Uwch

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1–7]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 93% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.³¹

Roedd 5 o'r 10 person perthnasol (50%) yn ystyried y byddai gwneud yr holl safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru, Prifysgol De Cymru a'r Brifysgol Agored y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Mynegodd 5 o'r 10 person perthnasol (50%) – Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Glyndŵr a'r Brifysgol Agored – bryderon ynghylch y graddau y byddent yn gallu cydymffurfio â safon 2 ar hyn o bryd, ac yn benodol, y gofyniad i gadw cofnod o ddewis iaith y personau y gohebir â hwy. Cadarnhaodd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru nad oedd ganddynt system TG integredig er mwyn cadw cofnod canolog o ddewis iaith ar draws y sefydliad cyfan ar hyn o bryd. Ategwyd hynny gan nodi mai'r arfer cyfredol yw casglu gwybodaeth am ddewis iaith drwy systemau Rheoli Perthynas Cwsmer (CRM) adrannau unigol y Brifysgol. O'r herwydd, nid yw dewis iaith yn cael ei rannu na'i ddefnyddio gan adrannau wrth iddynt gynllunio cyfathrebiad. Nodwyd ganddynt y byddai angen cynllunio system TG integredig newydd er mwyn cydymffurfio â'r safon hon ac er mwyn sicrhau dull cyson o ganfod dewis iaith ar draws y sefydliad.

Cadarnhaodd Prifysgol Glyndŵr ei bod yn ystyried prynu system cofnodi perthynas cwsmeriaid newydd. Nododd mai'r gobaith oedd y byddai'r system yn cynnwys cyfleuster i gofnodi dewis iaith, er na ddefnyddiwyd systemau tebyg yn y gorffennol i'w llawn botensial.

Er nad yw'r Brifysgol Agored yn gofyn yn systematig am ddewis iaith, pan fo myfyriwr neu ymholwr yn ei hysbysu o'i ddewis, nodwyd y byddai'r dewis hwnnw'n cael ei gofnodi ar gronfa ddata Rheoli Perthynas Cwsmer.

Nododd Prifysgol Abertawe yr hoffai rhai personau dderbyn gohebiaeth am rai pynciau yn Gymraeg ac am bynciau eraill yn Saesneg, a'i bod yn pryderu y byddai rhai siaradwyr Cymraeg yn dewis peidio derbyn gohebiaeth na chyfathrebiad yn Gymraeg o ganlyniad. Ategwyd hynny gan nodi bod angen ystyried priodoldeb rhannu gwybodaeth bersonol fel dewis iaith ar draws y sefydliad cyfan.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safon 4, nododd y Brifysgol Agored mai'r arfer cyfredol ganddi oedd anfon fersiynau dwyieithog o ohebiaeth at bersonau yng Nghymru. Er hynny, nodwyd pryder ynghylch darparu ffurflenni dwyieithog. At hynny, eglurodd y Brifysgol

³¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd..

Agored ei fod yn sefydliad oedd yn gweithredu'n fyd-eang ac mai swyddfa fach yn unig oedd ganddi yng Nghymru, ac felly fod llawer o'i ffurflenni yn Saesneg yn unig. Yn ychwanegol at hynny, eglurwyd y byddai'n gostus i'r holl ohebiaeth sy'n delio â'r Deyrnas Unedig gyfan fod yn ddwyieithog. Cadarnhaodd Prifysgol Caerdydd fod y gofynion ynghlwm â'r safon hon yn arfer cyfredol mewn rhai mannau o'r Brifysgol yn unig (e.e. adran recriwtio a derbyn myfyrwyr) a'i fod yn ddibynol ar natur yr ohebiaeth honno.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8–22]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 77% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.³²

Derbyniwyd tystiolaeth gan yr holl bersonau perthnasol oedd yn cadarnhau bod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol o fewn eu sefydliadau. At hynny, nododd 4 o'r 10 person perthnasol (40%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Yn ychwanegol at hynny, nododd 6 o'r 10 person perthnasol (60%), sef Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol De Cymru a'r Brifysgol Agored, y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er yr uchod, mynegwyd pryderon gan Brifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru (50%) ynghylch eu gallu i gydymffurfio â safonau'n ymwneud â galwadau ffôn uniongyrchol at adrannau ac at aelodau unigol o staff. Roedd consensws y byddai sicrhau cydymffurfiaeth ar bob achlysur yn heriol iawn oherwydd diffyg staff Cymraeg o fewn colegau ac adrannau penodol a fyddai'n medru darparu gwybodaeth arbenigol dros y ffôn, graddfa a maint y sefydliad ynghyd â natur ryngwladol y staff. Er i Brifysgol Abertawe adrodd bod ganddi gyfeiriadur mewnol o staff sy'n siarad Cymraeg fesul coleg ac adran, eglurwyd y byddai'r gallu i alw ar y siaradwyr Cymraeg hynny i ddelio â galwad yn y Gymraeg yn dibynnu p'un a oeddent ar gael ai peidio, ynghyd â natur yr alwad dan sylw. Ategodd Prifysgol Cymru y byddai'n anymarferol ac yn wrthgynhyrchiol i drosglwyddo'r galwr at siaradwr Cymraeg na fyddai'n meddu ar lefel ddigonol o wybodaeth neu arbenigedd yn y maes penodol i gynorthwyo'r galwr.

Mynegodd Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru, Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru bryderon ynghylch y gofynion ynghlwm â safon 21, gan nodi y byddent yn anodd eu gweithredu ar hyn o bryd. Ymhlith y rhesymau dros hynny oedd argaeledd staff Cymraeg sydd ag arbenigedd mewn maes penodol i gynorthwyo galwyr bob amser. Yn ychwanegol at hynny, er bod Prifysgol Bangor yn ymrwymo i gynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn, nodwyd nad oedd ganddi system awtomatig ar gyfer cofnodi dewis iaith galwyr ac felly y byddai cofnodi dewis iaith mor fanwl â hyn yn heriol i'r sefydliad.

³² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Mynegodd Prifysgol De Cymru hefyd y byddai'n ei chael yn anodd cydymffurfio â safon 21 ar hyn o bryd, o ystyried ei bod yn gweithredu ar draws campysau niferus oedd yn gweithredu fel sefydliadau unigol i bob pwrpas. Nododd Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant y byddai'r gofyniad yn anymarferol oherwydd bod y gofynion yn ychwanegu at hyd pob sgwrs. Yn ychwanegol at hynny, codwyd pryder ynghylch ymarferoldeb delio â galwadau yn unol â dewis iaith a nodir mewn cofnod canolog, o ystyried gallu ieithyddol amrywiol staff. Er bod yr egwyddor tu ôl i safon 21 yn un i'w chrosawu, roedd o'r farn y dylid ystyried mecanwaith arall a fyddai'n arwain at ganlyniad tebyg.

Ymysg y pryderon cyffredinol eraill a nodwyd oedd y gallu i sicrhau nifer digonol o staff Cymraeg y tu allan i oriau craidd swyddfeydd, ynghyd â'r ffaith fod rhai personau yn gweithredu tu hwnt i Gymru a bod ganddynt swyddfeydd mewn gwledydd eraill.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23–29]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 58% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.³³

Gan ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 23–29, nododd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd 7 o'r 10 (70%) eu bod o'r farn y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cadarnhaodd yr holl bersonau fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn weithredol o fewn eu sefydliadau. Er hynny, mynegodd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) bryderon ynghylch y graddau y byddent yn medru cynnal rhai cyfarfodydd yn y Gymraeg heb gyfleusterau cyfieithu. Ymhlith y rhesymau dros hynny oedd natur a gwybodaeth arbenigol rhai cyfarfodydd ynghyd â nifer cyfyngedig y staff all gynnal y cyfarfodydd hynny yn Gymraeg heb ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu.

Nododd Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant y byddai'n anodd sicrhau cyfieithu ar y pryd ar gyfer aelod di-Gymraeg o staff mewn achosion lle cynhelir cyfarfodydd gyda'r hwyr, ar benwythnosau, neu pan drefnir hwy ar fyr rybudd. Yn yr un modd, nododd Prifysgol De Cymru ei bod o'r farn y byddai'n anodd cydymffurfio â'r gofynion mewn argyfwng neu pan drefnir cyfarfod ar fyr rybudd.

Roedd Prifysgol Caerdydd o'r farn y dylid ystyried materion cyfrinachedd wrth ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd caeedig.

Ymysg y pryderon cyffredinol eraill a nodwyd oedd yr angen i hyfforddi staff ymhellach, pwysau cynyddol o ran rheoli a darparu gwasanaethau cyfieithu ynghyd â diffyg cyfieithwyr cymwys i gwrdd â'r galw.

³³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30–34]**

Nododd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Nid oedd Prifysgol De Cymru, Prifysgol Cymru na Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn ystyried eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. Er hynny, eglurir yn nhystiolaeth Prifysgol Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn achlysurol ac yn ei wneud yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 82% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.³⁴

Gan ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 30–34, nododd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Prifysgol Caerdydd y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Er bod y Brifysgol Agored yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddi yn afresymol ac anghymesur, nodwyd bod y gofynion ynghlwm â'r safonau yn rhesymol a chymesur pe bai'r gofynion ar gyfer ei gweithgareddau yng Nghymru yn unig, neu pe bai'r cyfarfodydd hynny yn gysylltiedig â materion Cymru yn benodol. Er hynny, mynegodd Prifysgol Abertawe bryder ynghylch sicrhau bod gwasanaethau cyfieithu ar gael pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn ystod oriau anghymdeithasol. Nododd Prifysgol Caerdydd y byddai'n afresymol iddi orfod cydymffurfio â safon 30 os cynhelir y cyfarfod cyhoeddus hwnnw y tu allan i Gymru.

Mewn perthynas â safon 32(a), nododd Prifysgol Caerdydd y dylid ystyried priodoldeb gofyn i bersonau o'r tu allan i Gymru a fyddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd. Cyflwynwyd tystiolaeth oedd yn mynegi pryder ynghylch achosion lle bo cyfarfod yn cynnwys mynychwyr a chynrychiolwyr rhyngwladol yn unig. Yn ychwanegol at hynny, nid oedd Prifysgol Caerdydd o'r farn y byddai'n gallu sicrhau bod cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod a hynny oherwydd prinder cyfieithwyr mewnol, dibyniaeth ar argaeledd cyfieithwyr allanol ynghyd â'r angen am ddigon o rybudd ymlaen llaw er mwyn llogi offer cyfieithu.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safon 34, aeth Prifysgol Caerdydd ymlaen i nodi ei bod yn creu crynodeb o ddarlithoedd yn yr iaith y'u cynhelir, a hynny er mwyn sicrhau nad yw cyfieithu'r crynodeb yn camarwain y gynulleidfa i gredu bod y ddarlith yn cael ei chynnal yn yr iaith honno. Roedd o'r farn fod y dull hwn hefyd yn cyfrannu at sicrhau ei fod yn sefydliad ecogyfeillgar.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanwydd gan gorff [35–36]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

³⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 95% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.³⁵

Cadarnhaodd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) fod y gofynion ynghlwm â'r safonau hyn eisoes yn arfer cyfredol o fewn eu sefydliadau ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd y Brifysgol Agored y byddai gwneud y safonau dan sylw yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur mewn egwyddor, ac y cydymffurfir â hwy mewn perthynas â gweithgareddau'r Brifysgol Agored yng Nghymru ar hyn o bryd. At hynny, roedd o'r farn y byddai'n afresymol i'r safonau hyn gael eu cymhwyso ym mhob rhan o'r Brifysgol Agored y tu allan i Gymru. Er i Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru gydnabod bod elfennau o'r safonau hyn yn arfer cyfredol ganddynt, nid oeddent yn ystyried y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Caerdydd mai'r arfer cyfredol ar gyfer darlithoedd cyhoeddus na chynhelir yn Gymraeg, neu'r rhai hynny nad ydynt o ddiddordeb penodol i Gymru neu'r iaith Gymraeg, fyddai darparu esboniad byr o'r ddarlith, ei lleoliad a'r amser, a hynny'n ddwyieithog. Ategwyd hynny gan nodi bod gwybodaeth fanwl, ynghyd â'r dogfennau ategol, yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.

Nododd Prifysgol Abertawe mai'r arfer cyfredol ganddi oedd sicrhau bod dogfennau ar gael yn ddwyieithog neu yn Gymraeg mewn digwyddiadau cyhoeddus. Er hynny, nododd y Brifysgol ei bod yn ystyried y byddai'n afresymol cynnig cyfieithu ar y pryd yn ystod darlithoedd academaidd, a hynny oherwydd eu cynnwys technegol ac arbenigol, ond y byddai'n rhesymol cynnig y gwasanaeth mewn digwyddiadau corfforaethol a darlithoedd cyffredinol.

Nododd Prifysgol De Cymru ei bod yn afresymol, yn ystod digwyddiad cyhoeddus, i ddarparu trafodaethau am bwnc penodol, ynghyd â'r ddogfennaeth gyfatebol, yn Gymraeg pan nad yw'n cynnig y ddarpariaeth honno drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai gwneud hynny'n achosi dryswch wrth farchnata darpariaeth y Brifysgol mewn digwyddiad cyhoeddus, yn ei dyb ef.

Roedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caerdydd o'r farn fod angen hyblygrwydd wrth benderfynu cyfrwng iaith rhai digwyddiadau. Cyfeiriwyd at ddigwyddiadau a gynhelir y tu allan i Gymru, natur arbenigol a thechnegol y digwyddiad dan sylw, ynghyd â natur ieithyddol y gynulleidfa.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff.³⁶

³⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

³⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Derbyniwyd tystiolaeth gan yr holl bersonau perthnasol oedd yn cadarnhau bod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safon hon eisoes yn weithredol o fewn eu sefydliadau. Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safon 37, nododd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd y Brifysgol Agored fod y gofynion ynghlwm â'r safon yn rhesymol a chymesur mewn perthynas â chyhoedduswydd a hysbysebu yng Nghymru ac i Gymru yn benodol. Oherwydd bod y Brifysgol Agored yn gweithredu tu hwnt i Gymru, nid oedd o'r farn y byddai'n rhesymol nac yn ymarferol i'w holl ddeunydd hysbysebu a chyhoedduswydd fod yn ddwyieithog. Ategodd Prifysgol Glyndŵr at hynny drwy gadarnhau bod unrhyw hysbysebion y tu allan i Gymru yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd.

Gan ystyried y gofynion ynghlwm â safon 37, nododd Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Caerdydd eu bod yn ystyried y gynulleidfa a chynnwys y deunydd cyn penderfynu ym mha iaith neu ieithoedd y cynhyrchir deunyddiau cyhoedduswydd, a hynny er mwyn sicrhau bod deunydd cyhoedduswydd yn cwrdd â gofynion y gynulleidfa.

Mynegodd Prifysgol Caerdydd bryder hefyd ynghylch y gallu i hysbysebu yn Gymraeg wrth ddefnyddio rhai gwefannau fel cyfrwng hysbysebu. Nododd nad oedd y gwefannau hyn yn caniatáu rhestr (listings) yn Gymraeg ar hyn o bryd. Ychwanegodd ei bod yn hyrwyddo'r Brifysgol ar wefannau cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau cymdeithasol rhyngwladol eraill nad ydynt yn galluogi defnyddio'r Gymraeg na'r Saesneg.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38–39]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 90% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.³⁷

Cadarnhaodd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) fod y safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Cadarnhaodd Prifysgol Caerdydd fod rhai elfennau o'r safonau hyn yn weithredol ganddi ac y byddai'n medru cydymffurfio'n rhannol â hwy, ond nid oedd o'r farn y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Nododd y Brifysgol Agored ei bod yn rhesymol i'r holl ddeunydd arddangos cyhoeddus a gynhyrchir ganddi yng Nghymru, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, fod yn ddwyieithog.

Cadarnhaodd Prifysgol Caerdydd fod rhai elfennau o'r safonau hyn yn weithredol ganddi ac y byddai'n medru cydymffurfio'n rhannol â hwy, ond nid oedd o'r farn y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur. Nododd y Brifysgol Agored ei bod yn rhesymol i'r holl ddeunydd arddangos cyhoeddus a gynhyrchir ganddi yng Nghymru, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru, fod yn

³⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

ddwyieithog.

Er eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, mynegodd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth bryder y gallai anawsterau penodol godi ar brydiau yng nghyd-destun arddangos deunydd academaidd. Ategwyd hynny gan Brifysgol Caerdydd, a nododd ei bod o'r farn y byddai'n afresymol darparu fersiwn Cymraeg o ddeunydd arddangos cyhoeddus a fwriedir at ddefnydd rhyngwladol yn unig. Yn yr un modd, nododd Prifysgol Glyndŵr nad oedd yn arfer cyfredol i ddeunydd arddangos fod yn Gymraeg pan gynhelir y digwyddiad yn Lloegr.

Cadarnhaodd Prifysgol Abertawe y byddai angen adnoddau cyfieithu ychwanegol er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau hyn.

Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40–49]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.³⁸

Nododd 5 o'r 10 person perthnasol (50%), sef Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth fod y safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau ar y cyfan ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er i'r personau eraill gydnabod bod nifer o elfennau'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddynt, nid oeddent yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er gwaethaf yr uchod, nododd y Brifysgol Agored ei bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol pe byddai'r dogfennau a'r deunyddiau yn deillio o'r Brifysgol Agored yng Nghymru, neu pan gaiff dogfennau a deunyddiau eu cynhyrchu'n ganolog i'w defnyddio'n benodol yng Nghymru ac yng Nghymru yn unig.

Nododd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth y gallai anawsterau penodol godi ar brydiau yng nghyd-destun cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau academaidd, e.e. papurau a thafleuni a ddosberthir mewn seminarau a darlithoedd sy'n agored i'r cyhoedd. Er bod Prifysgol Bangor yn croesawu'r egwyddor fod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg, roedd o'r farn na ddylai hynny olygu mai cyfieithiad yn unig yw'r fersiwn Cymraeg bob amser. Nodwyd ei bod hi'n bwysig gwarchod yr egwyddor fod y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg yn wahanol ar brydiau, a hynny'n ddibynnol ar anghenion cynulleidfaoedd arbennig.

Nododd Prifysgol De Cymru bryderon pan fo fersiynau ar-lein o ddogfennau yn cael eu darparu drwy feddalwedd cyflenwr (e.e. 'Higher Education Achievement Record'), a hynny oherwydd diffyg gallu systemau felly i gynhyrchu fersiwn Cymraeg. Nodwyd y byddai Prifysgol De Cymru yn croesawu arweiniad pellach ar y dull mwyaf effeithiol o gynhyrchu

³⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

dogfennau Cymraeg oddi ar systemau o'r fath.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safon 43, mynegodd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd bryderon ynghylch cydymffurfio â'r safon mewn rhai achosion penodol, e.e. cynhyrchu deunydd at ddefnydd rhyngwladol neu ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol yn unig, neu pan fo'r cynnwys o natur arbenigol. Yn ychwanegol at hynny, roedd Prifysgol Abertawe yn ystyried y byddai'n well blaenoriaethu cynhyrchu fersiynau Cymraeg o brif gyhoeddiadau, cyhoeddiadau sydd â mwy o berthnasedd cyffredinol i'r cyhoedd, yn ogystal â llyfrynnau gwybodaeth i fyfyrwyr am gyrsiau.

Roedd Prifysgol Caerdydd o'r farn nad oedd yn rhesymol cynhyrchu a chyhoeddi rheolau yn Gymraeg mewn digwyddiad â chynulleidfa ryngwladol. Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safon 45, roedd Prifysgol Caerdydd yn credu ei bod yn bwysig fod y Saesneg (neu/a phrif iaith y wlad dan sylw) yn cael ei dangos gyntaf, a hynny er mwyn sicrhau bod rheolau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn cael eu cyfleu'n glir i'r gynulleidfa honno.

Nododd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd bryderon ynghylch y graddau y byddent yn medru cydymffurfio'n llawn â safon 46. Oherwydd yr angen i ymateb ar fyr rybudd mewn rhai achosion, nododd Prifysgol Abertawe y byddai'n ei chael yn anodd cydymffurfio â safon 46 yn llawn heb achosi oedi o ran cyhoeddi datganiadau i'r wasg. Er hynny, nodwyd y gellid cydymffurfio â'r safon pan fo'r datganiad cael ei ryddhau i'r cyhoedd ar wefan y Brifysgol. Roedd Prifysgol Caerdydd o'r farn na fyddai'n gymesur darparu datganiadau i'r wasg yn Gymraeg i unigolyn neu sefydliad nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru.

Nododd Prifysgol Cymru bryder ynghylch y graddau y byddai'n rhesymol i adran gofrestrfa'r Brifysgol gydymffurfio â'r safonau hyn, a hynny gan ei bod yn ymwneud â chanolfannau a myfyrwyr tramor o ddydd i ddydd.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50–51]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 85% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.³⁹

Nododd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) fod y safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Abertawe ei bod o'r farn y byddai'n rhesymol cydymffurfio â'r safonau ond y byddai goblygiadau sylweddol i adnoddau cyfieithu.

Nododd y Brifysgol Agored y tybiai fod elfennau o'r safonau hyn yn afresymol ac yn anghymesur iddi. Nododd fod nifer fawr o wahanol ffurflenni ar-lein a gynhyrchir ac a reolir o'r campws canolog yn Milton Keynes ar gyfer cynulleidfa ledled y DU ac yn fyd-eang. O

³⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

ganlyniad, roedd o'r farn na fyddai'n rhesymol nac yn gymesur cynnig pob ffurflen yn ddwyieithog. Hefyd, nodwyd y byddai angen ailstwythuro seilwaith TG y system sy'n rhoi data parod ar ffurflenni ar-lein y Brifysgol, gan olygu buddsoddiad sylweddol, er mwyn cydymffurfio â'r safonau dan sylw. Nodwyd na fyddai'r gost o wneud hynny'n gymesur.

**Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52–57]**

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 83% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁴⁰

Nododd Prifysgol Glyndŵr a Phrifysgol Bangor fod y safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau, ar y cyfan, ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er bod y personau eraill yn cydnabod bod elfennau o'r safonau eisoes yn weithredol ganddynt ac y byddai modd iddynt gydymffurfio'n rhannol â hwy, nid oeddent o'r farn y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Mynegwyd pryder gan 6 pherson perthnasol ynghylch eu gallu i sicrhau gwefan hollol ddwyieithog, a hynny oherwydd y goblygiadau sylweddol yn ariannol ac ar adnoddau, yn eu tyb hwy. Ymhellach, nododd Prifysgol Abertawe bryder ynghylch natur arbenigol rhai tudalennau ar ei gwefan yn ogystal â phriodoldeb cyfieithu tudalennau sydd â thestun wedi dyddio.

Nid oedd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth yn ystyried y byddai'n briodol darparu fersiynau dwyieithog o dudalennau canolfannau academiaidd, ynghyd â gwefannau ac apiau a anelir at fyfyrwyr rhyngwladol. Nid oedd Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn ystyried y byddai'n rhesymol iddynt ddarparu tudalennau gwefan dwyieithog pan fônt yn disgrifio rhaglenni a gynigir ganddi drwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Nodwyd hefyd y byddai defnyddio un iaith yn unig yn osgoi dryswch ynglŷn â'r iaith y cynhelir y rhaglenni hynny ynddi.

Roedd Prifysgol Abertawe yn ystyried y gofyniad i gynhyrchu pob ap yn Gymraeg yn afresymol, a hynny oherwydd goblygiadau amser a'r adnoddau arbenigol sydd eu hangen i wneud hynny.

Cynigiwyd nifer o sylwadau ynghylch cyfyngiadau ac anawsterau oedd yn deillio o faterion TG. Nododd rhai personau perthnasol fod prinder rhyngwynebaw a phecynnau Cymraeg ar gyfer y feddalwedd a theclynnau ar-lein a ddefnyddir ganddynt (e.e. EventBrite a Quercus) yn creu anhawster i ddarparu gwasanaethau ar-lein cwbl ddwyieithog.

Nododd y Brifysgol Agored bryder ynghylch ei gallu i gydymffurfio'n llawn â'r safonau o ystyried presenoldeb helaeth y Brifysgol Agored ledled y DU ac yn rhyngwladol ar y we, yn ogystal â'r graddau y caiff cynnwys y Brifysgol Agored ar y we ei reoli o'r campws canolog yn Milton Keynes.

⁴⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a ddangosir gan gorff [58–60]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 70% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.⁴¹

Nododd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) fod y safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nododd y Brifysgol Agored a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant fod y safonau hyn eisoes yn weithredol ganddynt ar y cyfan ac y byddai modd iddynt gydymffurfio'n rhannol â hwy.

Nododd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd bryder ynghylch gosod arwyddion fel mai'r Gymraeg fyddai'n debygol o gael ei darllen yn gyntaf, a hynny gan ystyried yr anawsterau posib y byddai myfyrwyr rhyngwladol yn eu cael wrth ddarllen arwyddion o'r fath.

Roedd y Brifysgol Agored o'r farn y dylai'r safonau fod yn berthnasol i'w hadeiladau yng Nghymru yn unig. Ymhellach, mynegodd Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Glyndŵr y byddai'n anodd sicrhau bod pob arwydd dros dro yn ddwyieithog. Nodwyd prinder staff, a fyddai'n medru ymgymryd â'r gwaith cyfieithu ar unwaith fel rheswm dros hynny.

Gweithgaredd 12: Derby'n ymwelwyr i adeiladau'r corff Safonau ar gyfer derby'n ymwelwyr i adeiladau'r corff [61–66]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd yr holl bersonau perthnasol namyn Prifysgol Caerdydd (90%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derby'n ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁴²

Nododd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) fod y safonau hyn eisoes yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau ac y byddai eu gwneud yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er hynny, nododd Prifysgol Caerdydd, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Abertawe fod elfennau o'r safonau hyn eisoes yn weithredol ganddynt ac y byddai modd iddynt gydymffurfio'n rhannol â hwy. Ategodd y Brifysgol Agored y byddai'r safonau yn rhesymol o'u cymhwyso iddi yng Nghymru.

Mynegodd Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe fod prinder staff sy'n medru'r Gymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth derby'nfa drwy gyfrwng y Gymraeg. Ac felly, na fyddai modd gwarantu y byddai modd i hynny ddigwydd bob amser ar hyn o bryd. Er hynny, nododd y gallai'r hwb newydd a sefydlwyd ar gyfer gwasanaethau myfyrwyr fynd i'r afael â'r mater hwn wrth i'r Brifysgol safoni gwasanaethau myfyrwyr wyneb-yn-wyneb

⁴¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

mewn un man canolog.

Nid oedd Prifysgol Bangor o'r farn y byddai'n rhesymol gofyn i berson ymlaen llaw am wasanaeth derbynfa yn Gymraeg oherwydd y dylai gwasanaeth Cymraeg o'r fath fod ar gael yn ddiodyn i bersonau.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol [67–68]**

Nododd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 8 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol.⁴³

Nododd allan o'r 10 person perthnasol (70%) y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd y Brifysgol Agored y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddi yng Nghymru yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Abertawe na fyddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur, a hynny am nad oedd o'r farn ei fod yn berthnasol i'w gweithgareddau ar hyn o bryd.

Mynegodd Prifysgol Caerdydd bryder ynghylch rhesymoldeb cydymffurfio â'r safonau hyn mewn achosion lle roedd angen arddangos gwybodaeth bwysig ar frys (e.e. peryglon iechyd a diogelwch). Hefyd, nodwyd y dylid ystyried cymuned ryngwladol y Brifysgol wrth ddod i gasgliadau am resymoldeb a chymesuredd gwenud y safonau hyn yn berthnasol iddi.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69–73]**

Nododd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 9 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant nad oeddynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 62% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.⁴⁴

O'r rhai a nododd eu bod yn gwneud y gweithgaredd, cadarnhaodd 6 o'r 9 (67%) person perthnasol y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, a hynny am fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol ganddynt.

Nododd y Brifysgol Agored ei bod ar hyn o bryd yn y broses o drosglwyddo'r cyfrifoldebau ynghylch dyfarnu ar geisiadau am grantiau a chymorth ariannol yn raddol i Gyllid Myfyrwyr Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. O ganlyniad, nodwyd na fydd myfyrwyr newydd o'r flwyddyn academaidd 2014/15 ymlaen yn cael eu hasesu gan y Brifysgol Agored. Gyda

⁴³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

hynny mewn golwg, nid oedd o'r farn y byddai'r Brifysgol Agored yn gymwys i'r safonau dan sylw.

Adroddodd Prifysgol Cymru fod y gweithgaredd hwn yn cael ei weinyddu ganddi ar hyn o bryd, ond y byddai'r cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo i ymddiriedolaeth annibynnol yn 2015, ac felly nododd na fyddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddi yn rhesymol a chymesur.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â'r safonau, nododd Prifysgol De Cymru bryder ynghylch y graddau y byddai'n medru cydymffurfio â safon 71 mewn achosion pan nad yw'r cadeirydd yn medru'r Gymraeg. Ychwanegodd na fyddai'n medru cyf-weld ymgeisydd heb adnoddau cyfieithu ar y pryd mewn achos o'r fath ac y gallai hynny, ym marn y Brifysgol, effeithio ar ansawdd y drafodaeth honno.

Dylid nodi bod nifer o'r personau perthnasol, fel rhan o'u hymateb, wedi cyflwyno tystiolaeth ynghylch dyfarnu ar geisiadau am gymorth ariannol, ysgoloriaethau, gwobrau a bwrsariaethau i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 69–73. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ynghylch cwmpas y safonau hyn, a'u perthnasedd i'r gweithgareddau uchod wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74–78]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 5 person perthnasol (50%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 62% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.⁴⁵

Cadarnhaodd Prifysgol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, a hynny am fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol ganddynt. Nododd y personau perthnasol eraill y byddai gwneud detholiad o'r safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Ymhlith y pryderon a godwyd yr oedd goblygiadau o ran cost ac adnoddau pe byddai'n rhaid cyfieithu pob dogfen berthnasol i'r Gymraeg, prinder staff sy'n medru'r Gymraeg, ynghyd â'r ffaith fod contractau yn aml yn ddogfennau swmpus a thechnegol eu natur a'r amserlenni ar gyfer hysbysebu'r tendrau yn dynn.

Nododd Prifysgol Abertawe y byddai'n afresymol cydymffurfio â safon 74 oherwydd gofynion tendro amrywiol y Brifysgol, sydd yn aml ar gyfer offer arbenigol nad yw ar gael gan gwmnïau yng Nghymru. Mynegodd y farn na fyddai sicrhau bod pob dogfen tendr ar gael yn Gymraeg yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Abertawe y byddai'n afresymol cydymffurfio â safon 74 oherwydd gofynion tendro amrywiol y Brifysgol, sydd yn aml ar gyfer offer arbenigol nad yw ar gael gan gwmnïau yng Nghymru. Mynegodd y farn na fyddai sicrhau bod pob dogfen tendr ar gael yn Gymraeg yn rhesymol a chymesur.

⁴⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Ymhellach, nododd Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr bryderon ynglŷn ag ymarferoldeb cynnal cyfweliadau drwy ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Ymhlith y pryderon ynghylch hynny yr oedd y cyfaddawdu posib ar ansawdd y cyfweliad ynghyd â'r graddau y byddai'n rhesymol defnyddio dau banel cyf-weld gwahanol, yn ddibynnol ar gyfrwng iaith y cyfweliad.

Nododd y Brifysgol Agored fod yr holl gontractau ar gyfer gwasanaethau'n cael eu trefnu ar lefel y DU gyfan, ac felly nad yw'n ystyried llunio contractau o'r fath yn ddwyieithog yn rhesymol a chymesur. Fodd bynnag, nodwyd y gallai wneud trefniadau i ddarparu hyn yn ddwyieithog pe bai angen tendr ar gyfer contract sy'n benodol i Gymru.

Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79–80]

Nododd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 9 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Prifysgol Glyndŵr nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 75% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁴⁶

Cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol y byddai gwneud yr holl safonau'n benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, a bod y safonau eisoes yn arfer cyfredol ganddynt ar y cyfan.

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff Safonau ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]

Nododd pob un o'r 10 person perthnasol (100%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff.⁴⁷

Cadarnhaodd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur, a hynny am fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol ganddynt.

Er bod Prifysgol Caerdydd yn defnyddio hunaniaeth ddwyieithog ar hyn o bryd, nododd y byddai'n afresymol ac yn anghymesur sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â gofynion safon 81, gan dynnu sylw at bwysigrwydd canfod darpar

⁴⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

fyfyrwyr, ynghyd â phartneriaid busnes, yn rhyngwladol i'r Brifysgol. O ganlyniad, roedd o'r farn y gallai gosod iaith nad yw cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru yn medru ei deall uwchben y Saesneg yn gwanhau ac yn niweidio ei brand dwyieithog cyfredol.

Er bod gan y Brifysgol Agored yng Nghymru hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog, nid oedd o'r farn y byddai'n rhesymol i frand Y Brifysgol Agored yn y DU ac yn fyd-eang orfod cydymffurfio â'r gofynion ynghlwm.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82–84]

Nododd 5 o'r 10 person perthnasol (50%) o fewn y grŵp Corfforaethau Addysg Uwch, sef Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth, eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 3 pherson perthnasol (60%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 10% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.⁴⁸

Cadarnhaodd 5 o'r 10 person perthnasol (50%) y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Bangor y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Caerdydd fod y safonau hyn o bosib yn berthnasol i gyrsiau MOOCS y Brifysgol, ond ei bod o'r farn fod y safonau yn anghymesur o ystyried yr amrywiaeth eang o gynnwys ynghyd â'r niferoedd sy'n cofrestru ar gyfer y cwrs yn fyd-eang.

Ymhlith y pryderon a godwyd yr oedd nifer ac ystod y cyrsiau sydd ar gael, prinder staff sydd ag arbenigedd i ddarparu'r cyrsiau hynny yn Gymraeg, a'r logisteg ynghlwm â chynnig a darparu cyrsiau yn Gymraeg.

Daeth Prifysgol De Cymru i'r casgliad nad oedd y safonau hyn yn berthnasol iddynt. Er hynny, eglurwyd bod darpariaeth Canolfan Cymraeg i Oedolion, Morgannwg, sy'n rhan o'r Brifysgol, yn gweithredu'n gwbl ddwyieithog.

Cododd Prifysgol Caerdydd gwestiwn ynghylch union gwmpas y diffiniad o 'gwrs addysg' a geir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015',⁴⁹ a hynny gan ystyried swyddogaethau addysgol corfforaethau addysg uwch. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder mewn perthynas â'r uchod wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd 7 o'r 10 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O'r rhai hynny, nododd 7 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg. Nododd Brifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru nad oeddent yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

⁴⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁴⁹ <http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/141106-regulations-welsh-language-standards-cy.pdf>

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 10% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.⁵⁰

Nododd allan o'r 10 person perthnasol (80%) y byddai gwneud y safon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Roedd Prifysgol Caerdydd a'r Brifysgol Agored yn ystyried y byddai gwneud elfennau o'r safon yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Caerdydd ei bod yn defnyddio systemau annerch cyhoeddus mewn argyfwng yn unig, a gan ystyried natur ryngwladol y myfyrwyr, nodwyd y byddai'n fwy rhesymol cyhoeddi negeseuon yn Saesneg yn gyntaf. Cadarnhaodd y Brifysgol Agored y byddai'n rhesymol iddi gydymffurfio â'r safon dan sylw yng Nghymru ond y byddai'n afresymol ei gymhwyso i'r Brifysgol Agored yn gyffredinol.

Roedd Prifysgol Abertawe o'r farn y byddai'n anodd sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar gael bob tro mewn sefyllfaoedd argyfyngus neu sefyllfaoedd lle na fu unrhyw gynllunio o flaen llaw.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158–163]

Cadarnhaodd 5 o'r 10 person perthnasol (50%), sef Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr, y Brifysgol Agored, Prifysgol Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd y personau perthnasol eraill y byddai gwneud detholiad o'r safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Abertawe fod y gofynion ynghlwm â safonau 158, 159, 160 a 163 yn rhesymol ar y cyfan, ond y byddai angen datblygu nifer sylweddol o ddogfennau a threfniadau er mwyn codi ymwybyddiaeth staff, ynghyd â sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ogystal â hynny, nodwyd y byddai angen rhagor o adnoddau gweinyddol er mwyn ymgymryd â'r gwaith recordio gwybodaeth.

Mewn perthynas â safon 161, aeth Prifysgol Abertawe ymlaen i nodi bod rhai systemau i gofnodi'r galw am wasanaethau yn Gymraeg eisoes ar waith. Er hynny, mynegwyd pryder ynghylch ei gallu i gasglu gwybodaeth a data perthnasol gan yr holl adrannau, a sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir mewn adroddiad blynyddol yn gyflawn.

Nododd Prifysgol De Cymru fod y gofyniad i gadw copïau o'r dogfennau perthnasol ym mhob un o'u swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd yn gostus iawn gan ystyried bod ganddo nifer o safleoedd gwahanol.

Mynegodd Prifysgol Bangor, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Aberystwyth bryderon ynghylch y graddau y mae cymalau 2a, 2b a 2c safon 161 yn tanseilio'r egwyddor fod gwasanaeth Gymraeg yn cael ei gynnig yn ddiodyn.

Nododd nifer o'r personau perthnasol fod y dyddiad cyhoeddi awgrymedig y cyfeirir ato yn

⁵⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

y safonau hyn yn amhriodol i gorfforaethau addysg uwch. Nodwyd ei fod yn arfer cyfredol i gorfforaethau addysg uwch gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn unol â'r flwyddyn academaidd. I'r perwyl hwnnw, awgrymwyd y byddai 30 Hydref yn ddyddiad mwy addas i'r sector.

Safonau llunio polisi [86–95]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 99% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer llunio polisi.⁵¹

Cadarnhaodd pob person perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â'r safonau llunio polisi, mewn egwyddor, yn arferion cyfredol o fewn eu sefydliadau a'u bod yn gweithredu yn unol â hwy drwy eu cynllun iaith Gymraeg. Nododd pob person perthnasol, i raddau gwahanol, fod ganddynt drefniadau mewn lle er mwyn sicrhau bod polisiâu newydd a pholisiâu a gaiff eu hadolygu neu eu newid yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

Nododd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) eu bod o'r farn y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Er bod Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru a Phrifysgol Abertawe yn ystyried y byddai gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys iddynt yn afresymol ac yn anghymesur, roeddent yn ystyried bod sawl agwedd o'r safonau eisoes ar waith ganddynt yn unol â'u cynllun iaith Gymraeg.

Cadarnhaodd 9 o'r 10 person perthnasol (90%) eu bod yn ymgynghori ar benderfyniadau polisi yn unol â safonau 89–91. Nododd Prifysgol Glyndŵr nad oedd yn ymgynghori ar unrhyw benderfyniadau polisi mewn perthynas â'r safonau hyn. Cadarnhaodd Prifysgol Cymru nad oedd yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori'n ymwneud â phenderfyniadau polisi ar hyn o bryd, ond mewn egwyddor y byddai'n gweithredu'r safonau hyn pe byddai angen.

Mynegodd Prifysgol Abertawe bryderon ynghylch cydymffurfio â'r safonau a hynny oherwydd y defnydd o adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen er mwyn eu gweithredu. Nodwyd y byddai angen datblygu canllawiau a rhestrau gwirio priodol i'w hymgorffori mewn prosesau mewnol.

Cadarnhaodd 4 o'r 10 person perthnasol (40%), sef Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Aberystwyth eu bod yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau ar hyn o bryd. Er nad yw Prifysgol Cymru yn gorff sydd yn dyfarnu grantiau, cadarnhaodd ei fod wedi dyfarnu grantiau i fyfyrwyr ar gais rhoddwyr, yn ogystal â dosbarthu cymynroddion fel rhan o'i swyddogaeth gyfredol. Er hynny, pwysleisiwyd y bydd y swyddogaeth hon yn cael ei throsglwyddo i ymddiriedolaeth newydd o fis Mehefin 2015 ymlaen.

Roedd Prifysgol Caerdydd yn ystyried y byddai'n afresymol ac anghymesur gwneud y safonau yn benodol gymwys iddi, a hynny gan ystyried maint a natur amrywiol y sefydliad ynghyd â nifer y penderfyniadau a wneid ganddo. Ategwyd hynny gan nodi y dylai barhau â'r drefn gyfredol o roi'r sylw priodol i'r penderfyniadau polisi y mae'n eu hystyried yn berthnasol i'r Gymraeg yn unig.

Dylid nodi bod cyrff llywodraethu Prifysgol Cymru, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant wedi gwneud ymrwymiad i uno ym mis Hydref 2011. O ganlyniad, bwriedir creu sefydliad unedig dan Siarter 1828 Prifysgol Cymru: Y

⁵¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Drindod Dewi Sant maes o law. Gyda hynny mewn golwg ac wrth iddi integreiddio gwaith swyddfa wrth gefn yn ystod y cyfnod cyn yr uno, nododd Prifysgol Cymru y byddai angen trafodaethau gyda Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant ar bolisiau cyfredol ac integreiddio polisiau pellach.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164–169]

Wrth ymateb i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi, cadarnhaodd pob person perthnasol ac eithrio Prifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru (80%) eu bod yn ystyried y byddai gwneud y safonau atodol dan sylw yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er iddi gytuno bod safonau 164 a 165 yn rhesymol, nododd Prifysgol Abertawe ei bod o'r farn y byddai'r angen i gydymffurfio â safonau 166–169 yn ofyniad anghymesur. Roedd yn ystyried y byddai'r gofynion yn golygu datblygu strwythurau ac adnoddau casglu gwybodaeth o'r newydd. Ymhellach, nodwyd y byddai'r safonau'n golygu pwysau ychwanegol ar adnoddau cyfieithu'r sefydliad ac y byddai angen cymorth gweinyddol ychwanegol i lunio a chyhoeddi'r wybodaeth ar wefannau ac fel rhan o'u hadroddiad blynyddol.

Roedd Prifysgol De Cymru o'r farn y byddai cadw copïau o'r dogfennau perthnasol ym mhob un o'u swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd yn gostus iawn, gan ystyried bod ganddi nifer o safleoedd gwahanol.

Safonau gweithredu [96–142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96–109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 69% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.⁵²

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd pob person perthnasol, ac eithrio Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (70%), eu bod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd. O'r rhai hynny, nododd 6 o'r 7 person perthnasol (86%) eu bod wedi cyhoeddi'r polisi hwn ar ei fewnwyd.

Er nad oedd Prifysgol Abertawe yn meddu ar bolisi penodol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd, nodwyd bod ei chynllun iaith Gymraeg cyfredol yn cyfeirio'n benodol at y gwahanol ffyrdd y byddai'n mynd ati i hybu ethos dwyieithog y sefydliad. Eglurodd Prifysgol Abertawe fod gallu'r sefydliad i gydymffurfio â'r safon yn dibynnu ar yr ymrwymadau a wneir yn y polisi a'r gefnogaeth sydd ei hangen i alluogi hynny.

Er nad oedd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn meddu ar bolisi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd, nododd y byddai'n anelu at gydymffurfio'n llawn â safon 96. Ni dderbyniwyd unrhyw bryderon gan Brifysgol Glyndŵr mewn perthynas â chydymffurfio â safon 96 pe bai'r safon yn cael ei gosod arni.

Nododd Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru (60%)

⁵² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

fod darparu'r holl ddogfennau ynghlwm â safonau 97–102 yn arfer cyfredol. Roedd gweddill y personau perthnasol yn darparu detholiad o'r dogfennau dan sylw ar hyn o bryd. Nododd Prifysgol Caerdydd bryder ynghylch ei gallu i greu ffurflenni ar-lein yn Gymraeg ar hyn o bryd, a hynny oherwydd cyfyngiadau technegol y system ar-lein a ddefnyddir. Yn yr un modd, nododd Prifysgol Abertawe nad yw rhyngwyneb y system a ddefnyddir ar gyfer cofnodi oriau hyblyg ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd. Yn ategol at hynny, nodwyd y byddai goblygiadau adnoddau o ran cyfieithu dogfennau yn ogystal â monitro a goruchwyllo'r weithdrefn ar draws y sefydliad.

Nododd y Brifysgol Agored y byddai'n afresymol ac yn anghymesur iddi gydymffurfio â safon 102, a hynny oherwydd bod system TG y Brifysgol sydd yn rheoli gwyliau blynyddol, absenoldebau a gweithio hyblyg yn cael ei llunio a'i gweithredu ar lefel y DU. Ategwyd hynny gan nodi y byddai'r costau i sicrhau cydymffurfiaeth yn anghymesur.

Nododd Prifysgol Metropolitan Caerdydd bryder ynghylch newidiadau i ystyr a bwriad y cynnwys o fewn contractau, a hynny pan fônt yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Gan ystyried bod y dogfennau'n cynnwys terminoleg gymhleth a chyfreithiol benodol, nodwyd y gallai'r newid achosi risg cytundebol a masnachol i'r Brifysgol pe byddai anghysondeb o'i gymharu â'r cytundeb Saesneg.

Nododd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) ei fod yn arfer cyfredol ganddynt gydymffurfio'n rhannol neu'n llawn â gofynion ynghlwm â safonau 103–109. Mynegwyd pryder gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Abertawe y byddai costau cyfieithu sylweddol ynghyd â goblygiadau adnoddau ynghlwm wrth gydymffurfio â'r safonau dan sylw.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110–113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 66% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.⁵³

Cadarnhaodd pob person perthnasol (100%) eu bod yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwynion iddynt yn Gymraeg, ac yn ymateb i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud â hwy yn yr iaith honno. Er hynny, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Cymru a Phrifysgol Caerdydd (40%) yn unig a nododd eu bod yn hysbysu staff bod modd gwneud hynny yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Wrth dderbyn cwyn gan aelod o staff neu ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, nododd 4 o'r 10 person perthnasol (40%) eu bod yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ar hyn o bryd. O'r rhai hynny, 3 o'r 4 person perthnasol (75%) a gadarnhaodd eu bod yn gofyn i aelod o staff a hoffai ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Mynegodd 4 o'r 10 person perthnasol (40%) ei fod yn arfer cyfredol ganddynt gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu) ar hyn o bryd, gyda 7 o'r 10 person perthnasol (70%) yn medru darparu gwasanaeth cyfieithu.

Nododd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) y byddai gwneud safonau 110–113 yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd gweddill y personau perthnasol y byddai'n anodd sicrhau bod staff Cymraeg ar gael i gynnal cyfarfod yn Gymraeg bob amser. O ganlyniad i hynny, nodwyd y byddai rhaid darparu cyfieithu ar y pryd yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd dan sylw. Amlygwyd pryderon ynghylch y costau ychwanegol

⁵³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

ynghlwm â darparu gwasanaeth o'r fath.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114–117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 68% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.⁵⁴

Cadarnhaodd pob person perthnasol (100%) eu bod yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn yn Gymraeg. Er hynny, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru (30%) yn unig sydd yn hysbysu staff bod modd gwneud hynny yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Wrth drefnu cyfarfod gydag aelod o staff ynghylch achos disgyblu a gyflwynwyd yn ei erbyn, nododd 4 o'r 10 person perthnasol (40%) eu bod yn cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg ar hyn o bryd. O'r rhai hynny, 3 o'r 4 person perthnasol (75%) sy'n gofyn i aelod o staff a hoffai ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Ategodd Prifysgol Cymru ei fod yn arfer cyfredol ganddi gynnig cynnal cyfarfod disgyblu staff yn Gymraeg os gwyddai mai Cymraeg yw eu dewis iaith o flaen llaw. Er hynny, nid oedd yn cynnig y gwasanaeth yn rhagweithiol i bawb ar hyn o bryd.

Mynegodd 4 o'r 10 person perthnasol (40%) ei fod yn arfer cyfredol ganddynt gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu) ar hyn o bryd, a bod 5 o'r 10 person perthnasol (70%) yn medru darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod os nad yw'n bosib cynnal y cyfarfod yn Gymraeg fel arall.

Nododd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) y byddai gwneud safonau 114 –117 yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd gweddill y personau perthnasol y byddai'n anodd sicrhau bod staff Cymraeg ar gael i gynnal cyfarfod yn Gymraeg ar bob achlysur. O ganlyniad i hynny, nodwyd y byddai'n rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Mynegwyd pryderon ynghylch y costau ychwanegol ynghlwm wrth ddarparu gwasanaeth o'r fath.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118–124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 29% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd.⁵⁵

Nododd pob person perthnasol (100%) eu bod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion a gweithwyr. Yn ychwanegol at hynny, mynegodd pob person perthnasol, ac eithrio Prifysgol Glyndŵr, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd (70%), eu bod yn darparu rhyngwynebau Cymraeg i staff.

Cadarnhaodd pob person perthnasol, ar wahân i Brifysgol Aberystwyth (90%), eu bod yn gweithredu system fewnwyd. O'r rhai hynny, nododd 4 allan o'r 9 person perthnasol (44%) bod tudalennau'r fewnwyd ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys y dudalen gartref, y rhyngwyneb a'r dewislenni.

Cadarnhaodd pob person perthnasol, ar wahân i Brifysgol Aberystwyth (90%), eu bod yn

⁵⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

gweithredu system fewnrwyd. O'r rhai hynny, nododd 4 o'r 9 person perthnasol (44%) fod tudalennau'r fewnrwyd ar gael yn Gymraeg, gan gynnwys y dudalen hafan, y rhyngwyneb a'r dewislenni.

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safon 118, nododd Prifysgol Abertawe bryder ynghylch y gost sylweddol o ran cyfieithu rhyngwynebau dyfeisiau meddalwedd a ddefnyddir i'r Gymraeg ac ymestyn trwydded y Brifysgol er mwyn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg ar eu dyfeisiau personol.

Nid oedd Prifysgol Caerdydd, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Abertawe o'r farn y byddent yn medru cydymffurfio â safonau 121–122, a hynny oherwydd y byddai cyfieithu'r holl destun sydd ar eu mewnwyd yn gostus iawn. Nid oeddent ychwaith o'r farn y byddai modd iddynt gynnwys y diweddariadau rheolaidd a wneir i'r fersiwn Saesneg ar y fersiwn Cymraeg oherwydd prinder adnoddau cyfieithu a'r ystod eang o gynnwys.

Mynegodd Prifysgol Abertawe y farn fod angen eglurhad pellach ynglŷn â'r defnydd o'r termau 'mewnwyd', 'gwefan' a 'gwasanaethau ar-lein' yn Atodlen 3. Yn fwy penodol, teimlid bod aneglurder ar hyn o bryd a yw dyfeisiau meddalwedd a ddefnyddir gan y Brifysgol (megis *Internet.swan* ac *abw.swan*) yn berthnasol o ran y safonau yn Atodlen 3.

Yn yr un modd, darparodd nifer o'r personau perthnasol dystiolaeth ynghylch systemau mewnwyd i fyfyrwyr (e.e. Blackboard) wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 118–124. Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ynglŷn â chwmpas y diffiniad o 'fewnrwyd' yng nghyswllt yr uchod wrth bennu safonau mewn rheoliadau, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125–133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁵⁶

Cadarnhaodd 7 o'r 10 person perthnasol (70%) eu bod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg eu cyflogeion.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safon 126, nododd 6 o'r 10 person perthnasol (60%) nad oeddent yn darparu hyfforddiant i staff yn y meysydd dan sylw yn Gymraeg ar hyn o bryd. I'r gwrthwyneb, nododd Prifysgol Cymru a Phrifysgol Bangor eu bod yn darparu hyfforddiant i staff yn y Gymraeg ym mhob un o'r meysydd dan sylw, a Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant yn darparu hyfforddiant yn Gymraeg ym mhob maes ac eithrio un maes penodol.

Mewn perthynas â safonau 128 a 129, cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol (100%) eu bod yn darparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i'w cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, yn ogystal â darparu hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

Wrth ystyried gofynion safonau 130–131, cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol (100%) ei fod yn arfer cyfredol ganddynt ddarparu hyfforddiant i'w cyflogeion er mwyn iddynt feithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r gofynion sydd arnynt i weithredu yn

⁵⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

unol â'u cynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Nododd pob person perthnasol (100%) ei fod yn arfer cyfredol ganddynt ddarparu gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth cyflogeion a/neu weithwyr newydd o'r iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Yn ogystal â hynny, nododd pob person perthnasol, ar wahân i Brifysgol Glyndŵr (90%), eu bod yn darparu hyfforddiant er mwyn i gyflogeion feithrin dealltwriaeth o'r modd y gellid defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ar hyn o bryd.

Mewn perthynas â safon 132, nododd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) eu bod eisoes yn darparu geiriad neu logo ar gyfer negeseuon e-bost i'w cyflogeion sy'n dynodi pa un a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. Yn yr un modd, roedd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) yn sicrhau eu bod eisoes yn cydymffurfio â safon 133.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134–138]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 76% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.⁵⁷

Nododd pob person perthnasol (100%) eu bod yn cynnal asesiad o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg mewn perthynas â swyddi newydd neu swyddi gwag a hysbyseb. Wrth gynnal yr asesiad, ystyrir anghenion busnes y sefydliad ochr yn ochr â gofynion y cynllun iaith Gymraeg presennol. Er nad oedd strategaeth sgiliau dwyieithog yn ei lle gan bob person perthnasol ar hyn o bryd, nodant fod hynny'n digwydd ar lefel fwy anffurfiol yn fewnol.

Cadarnhaodd 8 o'r 10 person perthnasol (80%) ei fod yn arferol cyfredol neu'n rhesymol iddynt ddatgan mewn hysbyseb am swydd fod croeso i unigolion wneud cais am swydd yn Gymraeg ac na fyddai cais yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais yn Saesneg.

Cadarnhaodd Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru (60%) y byddai'n medru cynnal cyfweiliad neu asesiad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu os yw'r ymgeisydd yn dymuno. At hynny, nododd y personau uchod ynghyd â'r Brifysgol Agored (70%) y byddai'n darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad os nad yw'n bosibl ei gynnal yn Gymraeg. Cadarnhaodd Prifysgol Glyndŵr y cynhelir cyfweiliadau yn gyfan gwbl neu yn rhannol yn y Gymraeg, ond bod hynny'n digwydd yn unig ar gyfer swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu yn ddymunol.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139–141]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, ar gyfartaledd roedd 78% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.⁵⁸

Cadarnhaodd yr holl bersonau perthnasol (100%) fod arwyddion sy'n cael eu harddangos y tu mewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg. O'r rhai hynny, nododd Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth (50%) mai eu harfer cyfredol yw gosod testun Cymraeg ar arwyddion fel mai hwnnw'n sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

⁵⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁵⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, nid oedd yr ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.⁵⁹

Nododd 4 o'r 10 person perthnasol (40%) fod cyhoeddiadau dros offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad ar hyn o bryd. O'r rhai hynny, nododd 4 person perthnasol (100%) eu bod yn gwneud y cyhoeddiadau hyn yn Gymraeg.

Roedd 8 corfforaeth addysg uwch, heb gynnwys Prifysgol Caerdydd a'r Brifysgol Agored, (80%) yn cytuno y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170–175]

Nododd pob person perthnasol, ar wahân i Brifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru (80%) y byddai gwneud y safonau'n benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Er hynny, roedd Prifysgol Abertawe yn ystyried y byddai'r gofynion ynghlwm â safonau 172–174 yn golygu datblygu strwythurau ac adnoddau casglu gwybodaeth o'r newydd. Ymhellach, nodwyd y byddai'r safonau'n golygu pwysau ychwanegol ar adnoddau cyfieithu'r sefydliad ac y byddai angen cymorth gweinyddol ychwanegol i lunio a chyhoeddi'r wybodaeth ar wefannau ac fel rhan o'r adroddiad blynyddol.

Roedd Prifysgol De Cymru o'r farn y byddai cadw copiâu o'r dogfennau perthnasol ym mhob un o'i swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd yn gostus iawn, o ystyried bod ganddi nifer o safleoedd gwahanol.

Safonau hybu [143–144]

Cadarnhaodd Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth eu bod yn cydsynio i fod yn gymwysadwy i safon hybu, a'u bod yn ystyried gwneud y safonau hybu yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Nododd Prifysgol Caerdydd hefyd ei fod yn cydsynio i fod yn gymwysadwy i safonau hybu. Er hynny, nodwyd nad oedd mewn sefyllfa i farnu a fyddai gwneud y safonau hybu yn benodol gymwys i'r Brifysgol yn rhesymol a chymesur, a hynny ar y sail nad oedd digon o wybodaeth ar gael i wneud y penderfyniad hwnnw ar hyn o bryd.

Nododd Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth y byddent yn medru cydymffurfio â'r holl safonau hybu cyhyd â bod cydnabyddiaeth na allent gymryd cyfrifoldeb dros gynnydd neu leihad yn nifer y siaradwyr Gymraeg yn yr ardal.

⁵⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau hybu [176–177]

O'r personau perthnasol hynny a gydsyniodd i fod yn gymwysadwy i'r safonau hybu, roedd Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth yn ystyried y byddai gwneud y safonau yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Safonau cadw cofnodion [145–157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynlluniau iaith Gymraeg yr holl bersonau dan sylw, roedd 92% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cadw cofnodion.⁶⁰

Roedd 4 o'r 10 person perthnasol (40%), sef Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Cadarnhaodd gweddill y personau perthnasol fod nifer o'r gofynion ynghlwm â safonau cadw cofnodion yn arferion cyfredol o fewn y sefydliad, a lle nad ydynt, y byddent yn medru cydymffurfio â hwy maes o law. Gyda hynny, nodwyd y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud detholiad ohonynt yn benodol gymwys iddynt.

Mynegodd Prifysgol Bangor ac Aberystwyth y farn fod rhai o'r gofynion a nodir yn safonau 145–157 yn anghymesur. Nodwyd bod risg y bydd y safonau yn eu ffurf gyfredol yn gosod gofynion arnynt a fyddai'n anghyraeddadwy ac yn diystyru'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith ddiogel yn eu sefydliad. Ategwyd hynny gan nodi bod rhai safonau penodol (sef 150 a 152–154) yn afresymol o ystyried nad oeddent yn cadw cofnodion cyffelyb yn yr iaith Saesneg a bod hynny, yn eu tyb hwy, yn golygu y byddai'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Darparwyd sylwadau cyffelyb gan Brifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Cymru. Ymhlith y rhesymau a nodwyd oedd nifer y galwadau a dderbynnir o ddydd i ddydd yn ogystal â natur gwasanaeth y prif switsfwrdd sy'n gwasanaethu canolfannau cydweithredol yn y DU a thramor. O ganlyniad, nododd Prifysgol Cymru fod canran helaeth o'r galwadau ffôn a dderbynnir drwy'r prif switsfwrdd yn rhai gan bobl nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn brif iaith iddynt.

Nododd Prifysgol Abertawe fod rhai o'r safonau cadw cofnodion yn rhy benodol yn eu ffurf gyfredol ac y byddai'n heriol iawn iddi gasglu'r holl wybodaeth a fyddai ei hangen i gydymffurfio.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [145–157]

Roedd pob person perthnasol, ac eithrio Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru (70%), yn ystyried y byddai gwneud safonau mewn perthynas â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur. Nododd Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant y byddai'n rhesymol a chymesur iddi gydymffurfio â safonau 145–157, ond y byddai hynny'n dibynnu a fyddai disgwyl i'r Brifysgol gadw cofnod o bob galwad Cymraeg a dderbynnir.

⁶⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Roedd Prifysgol Abertawe yn ystyried bod y gofynion ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion yn rhy benodol ac y byddai cydymffurfio â hwy yn afresymol ac yn anghymesur. Gyda hynny, nodwyd nad oedd o'r farn y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau'n ymwneud â'r materion atodol yn benodol gymwys i'r Brifysgol.

Roedd Prifysgol De Cymru o'r farn y byddai cadw copiâu o'r dogfennau perthnasol ym mhob un o'u swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd yn gostus iawn, o ystyried bod ganddi nifer o safleoedd gwahanol.

Darparwyr Gwasanaethau Gyrfaoedd

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Gweithgaredd 1: Gohebiaeth a anfonir gan gorff

Safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff [1–7]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gohebiaeth a anfonir gan gorff.⁶¹

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â gohebiaeth a anfonir gan gorff, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 2: Galwadau ffôn at gorff a chan gorff

Safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff [8–22]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 93% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer galwadau ffôn at gorff a chan gorff.⁶²

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â galwadau ffôn gan gorff, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 3: Cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol

Safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol [23–29]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 94% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol.⁶³

⁶¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymïadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 4: Cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
Safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd [30–34]**

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd.⁶⁴

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymïadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 5: Digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff

Safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff [35–36]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff.⁶⁵

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymïadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁶⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Gweithgaredd 6: Cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff Safonau ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff [37]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysebu.⁶⁶

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y gofynion gan eu bod eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safon ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 7: Arddangos deunydd yn gyhoeddus Safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus [38–39]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arddangos deunydd yn gyhoeddus.⁶⁷

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas ag arddangos deunydd yn gyhoeddus, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 8: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau [40–49]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau.⁶⁸

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â chorff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol.

⁶⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁶⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 9: Corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni Safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni [50–51]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni.⁶⁹

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r safonau ar gyfer corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni. Roedd y dystiolaeth ynghylch y graddau y byddai'r sefydliad yn gallu cydymffurfio â'r safonau yn nodi bod ffurflenni sy'n berthnasol i'r gwasanaethau sydd yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 10: Gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff Safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff [52–57]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff.⁷⁰

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn ystyried y byddai gwneud y mwyafrif o'r safonau ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Eglurwyd nad yw safon 55 yn rhan o'i gynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd. Serch hynny, adroddodd y sefydliad ei bod yn bosib newid iaith unrhyw dudalen ar y wefan drwy glicio ar y gair Cymraeg neu Saesneg.

Gweithgaredd 11: Arwyddion a arddangosir gan gorff Safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff [58–60]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir gan gorff.⁷¹

⁶⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir gan gorff, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau, ar y cyfan, yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 12: Derbyng ymwelwyr i adeiladau'r corff
Safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff [61–66]**

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff.⁷²

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn ystyried y byddai gwneud detholiad o'r safonau ar gyfer derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Eglurwyd nad yw safon 64 yn rhan o gynllun iaith Career Choices Dewis Gyrfya ar hyn o bryd. Serch hynny, lle bo'n ymarferol o fewn yr adnoddau staffio presennol, nododd y byddai'n sicrhau bod siaradwyr ar gael yn ei ganolfannau i ymdrin ag ymholiadau yn Gymraeg a bydd manylion ar gael i'r cyhoedd.

**Gweithgaredd 13: Corff yn gwneud hysbysiadau swydddogol
Safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swydddogol [67–68]**

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn gwneud hysbysiadau swydddogol.⁷³

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 14: Corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant [69–73]**

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya nad oeddynt yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.⁷⁴

Ni nodwyd unrhyw agwedd ar y safonau a oedd yn ymddangos yn afresymol neu'n anghymesur ym marn Career Choices Dewis Gyrfya.

⁷² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

**Gweithgaredd 15: Corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract
Safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract [74–78]**

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 67% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn dyfarnu ar dendrau am gontract.⁷⁵

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â chorff yn dyfarnu ar dendrau am gontract, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol ganddo. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 16: Codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff [79–80]**

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff.⁷⁶

Dylid nodi bod adran 12(2)(b) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau iaith Gymraeg bennu ym mha ffyrdd y bydd sefydliadau yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Pwysleisia'r Comisiynydd nad yw'r mesur hwn yn elfen ddewisol o fewn y ddeddfwriaeth.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y safonau gan fod y gofynion eisoes yn arfer cyfredol ganddo. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safonau ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

**Gweithgaredd 17: Hunaniaeth gorfforaethol corff
Safonau a bennir yn y rheoliadau drafft ar gyfer hunaniaeth gorfforaethol corff [81]**

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw, a'i fod yn gwneud y gweithgaredd hwnnw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer hunaniaeth

⁷⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

gorfforaethol corff.⁷⁷

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â hunaniaeth gorfforaethol corff, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya y byddai'n gallu cydymffurfio â mwyafrif y gofynion am eu bod eisoes yn arfer cyfredol ganddo. Ychwanegwyd at hynny gan nodi bod disgwyliadau'r safon ar y cyfan yn cyfateb i'r ymrwymïadau yn ei gynllun iaith statudol.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Gweithgaredd 18: Cyrsiau a ddarperir gan gorff Safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff [82–84]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw. O ganlyniad, ni nododd y sefydliad ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw yn Gymraeg.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, nid oedd yr ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cyrsiau a ddarperir gan gorff.⁷⁸

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya fod cyrsiau addysgol a gyflwynir ganddo yn cael eu darparu er mwyn gweithredu dyletswydd gyfreithiol Gweinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bob person ifanc o oedran ysgol, gan gynnwys y rhai mewn addysg bellach. Nododd Career Choices Dewis Gyrfya bod y ddyletswydd honno yn unol ag adran 8 Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973, ac felly, nid oedd o'r farn ei fod yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.⁷⁹ Dylai Gweinidogion Cymru, wrth bennu safonau mewn rheoliadau, sicrhau eglurder ynghylch y cwestiwn a fyddai'r mathau o ddyletswyddau a weithredir gan Career Choices Dewis Gyrfya yn unol ag adran 8 Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 yn ddarostyngedig i'r safonau ar gyfer cyrsiau.

Gweithgaredd 19: Systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff Safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff [85]

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya nad oedd yn gwneud y gweithgaredd dan sylw.

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, nid oedd yr ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff.

Eglurwyd bod cynllun iaith Career Choices Dewis Gyrfya yn nodi, lle bo datganiadau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu gan weithgynhyrchwyr, e.e. lifftiau, ac nad ydynt o dan ei reolaeth, y bydd yn asesu pa mor briodol ac ymarferol fyddai cyfieithu o fewn yr adnoddau sydd ar gael a'r amserlenni y cytunwyd arnynt.

Casglwyd bod Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁷⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn, ar gyfer pob gweithgaredd.

⁷⁹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1973/50>

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau [158–163]

Cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa y byddai gwneud detholiad o safonau sy'n ymwneud â'r materion atodol dan sylw yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Nodwyd pryder ynghylch y gwahanol ddulliau o gyhoeddi'r wybodaeth ynghlwm â'r materion atodol yng nghyswllt y safonau cyflenwi gwasanaethau. Nododd Career Choices Dewis Gyrfa nad yw'n arferol iddo gofnodi a chyhoeddi cofnodion fel y rhai a amlinellwyd yn safon 158 ar ei wefan nac yn ei swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd. Yn groes i'r uchod, wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safon 159, eglurwyd ei fod eisoes yn cyhoeddi dogfennau mewn perthynas â'i weithdrefn cwyno ar ei wefan ac yn ei swyddfeydd cyhoeddus, a hynny'n unol â'i bolisi Cymraeg mewnol a'i gynllun iaith Gymraeg.

Yn ychwanegol at hyn, nodwyd bod cyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â chydymffurfio â'i gynllun iaith Gymraeg eisoes yn arfer cyfredol ganddo.

Yng nghyswllt yr amserlen benodol a nodir yng nghymal 3 safon 161, nododd y sefydliad y byddai'n anodd cydymffurfio â'r amserlen honno oni bai ei bod yn cyd-fynd â'i drefniadaeth fewnol a'i ofynion cytundeb gyda Llywodraeth Cymru.

Safonau llunio polisi [86–95]

Wrth ddadansoddi ymrwymïadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymïadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer llunio polisi.⁸⁰

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa fod y safonau llunio polisi, mewn egwyddor, yn arfer cyfredol ganddo a'i fod yn gweithredu yn unol â hwy, i raddau gwahanol, drwy ei gynllun iaith Gymraeg. Ceir ymrwymïadau yng nghynllun iaith Gymraeg y sefydliad i asesu effaith ieithyddol bosibl unrhyw gynigion newydd sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y sefydliad.

Serch hynny, yn sgil uno'r saith cwmni Gyrfa Cymru blaenorol dan Career Choices Dewis Gyrfa, nododd Career Choices Dewis Gyrfa y gallai holl delerau ac amodau'r sefydliad newid, yn ogystal â'i bolisiâu a'i weithdrefnau. Eglurwyd y bydd y broses o newid yn un barhaus ac yn ddibynnol ar ymgynghori â'r staff ac Undebau. Aed ymlaen i egluro y byddai prosesau a pholisiâu newydd Career Choices Dewis Gyrfa yn ddibynnol ar asesiad effaith o ran cydraddoldeb, ac felly y byddai angen ystyried gofynion yr iaith Gymraeg.

Er hynny, roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud detholiad o safonau sy'n ymwneud â llunio polisi yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Cadarnhawyd nad oedd y sefydliad yn meddu ar bolisi dyfarnu grantiau, a hynny am nad oedd yn ymgymryd â'r gweithgaredd. O ganlyniad, mynegwyd nad yw safonau 92–94, sy'n cyfeirio at grantiau a ddyfernir, yn berthnasol i gyd-destun gwaith y sefydliad.

⁸⁰ Canran gyfartalog yr ymrwymïadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi [164–169]

Wrth ymateb i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau llunio polisi, roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud detholiad o safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Yng nghyswllt y safon sy'n ymwneud â rhoi cyhoeddusrwydd i safonau llunio polisi, nododd y sefydliad y gellir gweithredu'r safon hon, ond nad yw'n darparu fersiynau papur o unrhyw bolisiau i'r cyhoedd yn ei swyddfeydd ar hyn o bryd.

Mewn perthynas â chyhoeddi gweithdrefn cwyno, nododd Career Choices Dewis Gyrfa nad oedd yr elfen o gyhoeddi a gwneud dogfennaeth o'r fath ar gael i'r cyhoedd mewn swyddfeydd nac ar ei wefan yn rhan o'i weithdrefn bresennol.

Yng nghyswllt yr amserlen benodol a nodir yng nghymal 3 safon 167, nododd y sefydliad y byddai'n anodd cydymffurfio â'r amserlen honno oni bai ei bod yn cyd-fynd â'i drefniadaeth fewnol a'i ofynion cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod y weithdrefn o greu adroddiad blynyddol eisoes yn arfer cyfredol ganddo ond y cyhoeddir ef ar ei wefan yn unig ar hyn o bryd. Eglurwyd felly nad oedd yn sicrhau bod copïau cyfredol o'r adroddiad ar gael i'r cyhoedd ym mhob un o'i swyddfeydd cyhoeddus.

Safonau gweithredu [96–142]

Safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff [96–109]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 93% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff.⁸¹

Gan ystyried gofynion safon 96, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn gweithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol ar hyn o bryd, a bod y polisi hwnnw wedi'i gyhoeddi ar y fewnwyd. Ategodd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn meddu ar bolisi iaith fewnol a chynllun iaith Gymraeg, ynghyd â chanllawiau gweithredu mewnol i gefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.

Cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn darparu'r holl ddogfennau a nodir yn safonau 97–102, ar wahân i gcontractau am wasanaethau a'r ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau ac absenoldebau. Er hynny, nodwyd y gall staff ddewis iaith gyfathrebu gydag Adran Adnoddau Dynol Career Choices Dewis Gyrfa, ac y byddai'r dewis hwn yn cwmpasu contractau. Yn ychwanegol at hynny, nodwyd bod absenoldebau a gwyliau staff i gyd yn cael eu cofnodi'n electronig ac felly ni chynhyrchir unrhyw ffurflenni ynglŷn â'r materion hyn; cadarnhawyd bod y system rheoli absenoldeb staff yn uniaith Saesneg ar hyn o bryd, ond y byddai Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried unrhyw ddatblygiadau posibl/rhesymol eraill y gellir eu gwneud i'r gronfa ddata hon er mwyn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

⁸¹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Yng nghyswllt y gofynion ynghlwm â safonau 103–109, cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa fod yr holl bolisiau dan sylw yn cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog, a hynny ar ei fewnwyd.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff [110–113]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 60% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cwynion gan aelodau o staff corff.⁸²

Cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn caniatáu i bob aelod o staff gyflwyno cwynion i'r sefydliad, ynghyd ag ymateb i unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ef neu â hi, yn Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mae'r sefydliad yn nodi ei fod yn hysbysu pob aelod o staff fod modd gwneud hyn yn Gymraeg.

Nodwyd y byddai modd cynnal cyfarfod ynglŷn â chŵyn yn Gymraeg os byddai gan yr aelod o staff sydd â chyfrifoldeb dros ymchwilio i'r gŵyn y sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol. Lle nad yw hynny'n bosib, cynigir bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu. Yn ychwanegol at hynny, nodwyd bod y sefydliad yn rhoi gwybod yn Gymraeg i aelod o staff beth yw ei benderfyniad yn dilyn cwyn.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch corff yn disgyblu staff [114–117]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn disgyblu staff.⁸³

Wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 114–117, nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn caniatáu i aelodau o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn drwy'r broses ddisgyblu fewnol. Er hynny, nododd y sefydliad nad yw'n hysbysu pob aelod o staff fod modd gwneud hynny yn Gymraeg.

Cadarnhawyd ei fod yn cynnig cynnal unrhyw gyfarfod a drefnir mewn perthynas â'r honiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn darparu hynny heb unrhyw gymorth gan wasanaethau cyfieithu, lle bo'n bosibl. Os nad oes aelod o staff â'r sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol ar gael i gynnal y cyfarfod, cadarnhawyd bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu. Yn ychwanegol at hynny, nodwyd bod y sefydliad yn rhoi gwybod yn Gymraeg i aelod o staff beth yw ei benderfyniad yn dilyn achos disgyblu yn ei erbyn.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnwyd [118–124]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 100% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer technoleg

⁸² Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸³ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan gorff, ac ynghylch y fewnrwyd.⁸⁴

Nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn darparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg i gyflogeion a gweithwyr. Yn ychwanegol at hynny, cafwyd cadarnhad ei fod yn darparu rhyngwynebaw Cymraeg, yn ogystal â gweithredu system fewnrwyd ddwyieithog.

Nid amlygwyd unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfio â safonau 118–124. Er hynny, nododd fod ei fewnrwyd wrthi'n cael ei datblygu ac felly nid yw'r holl elfennau ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfya yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu [125–133]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfya, ar gyfartaledd roedd 89% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu.⁸⁵

Cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod yn asesu sgiliau iaith Gymraeg ei gyflogeion.

Wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safon 126, nododd Career Choices Dewis Gyrfya mai yn y maes recriwtio a chyfweld yn unig y darperir hyfforddiant i'w staff. Adroddwyd ei fod yn darparu'r hyfforddiant hwnnw yn yr iaith Saesneg yn unig.

Gan ystyried y gofynion mewn perthynas â safonau 127, nododd Career Choices Dewis Gyrfya ei fod eisoes yn asesu ac yn canfod yr angen am hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer datblygu sgiliau iaith, a hynny er mwyn i gyflogeion gyflawni eu dyletswyddau'n effeithlon.

Yng nghyswllt y gofynion ynghlwm â safonau 128–129, nododd y sefydliad ei fod eisoes yn y broses o weithredu'r elfennau hyn yn unol â'i gynllun iaith. Eglurwyd ei fod yn ymrwymo i annog aelodau o staff i wella eu sgiliau Cymraeg. Cadarnhawyd ei fod yn sicrhau bod hyfforddiant priodol mewn sgiliau iaith Gymraeg ar gael ac yn cael ei nodi yng nghynllun hyfforddi Career Choices Dewis Gyrfya, yn ogystal ag mewn cynlluniau rhanbarthol.

Mewn perthynas â safon 130, nodwyd ei fod yn darparu hyfforddiant i'w gyflogeion a/neu ei weithwyr er mwyn iddynt feithrin dealltwriaeth o'r gofynion sydd ar y sefydliad i weithredu ei gynllun iaith Gymraeg, ynghyd â'r modd y gellid defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Nodwyd nad oedd yn darparu hyfforddiant penodol er mwyn meithrin ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Er hynny, eglurwyd ei fod yn defnyddio pecynnau gwybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymysg aelodau staff. Soniwyd bod Career Choices Dewis Gyrfya yn cynnwys cyfeiriad at bolisiau, cynlluniau ac adnoddau perthnasol am y Gymraeg yn ystod ei sesiynau cynefino.

⁸⁴ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁵ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn darparu geiriad neu logo ar gyfer negeseuon e-bost ei gyflogeion a/neu ei weithwyr er mwyn eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith. Yn ychwanegol i hynny, nodwyd bod manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost yn Gymraeg.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch recriwtio gan gorff [134–138]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 71% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer recriwtio gan gorff.⁸⁶

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn cynnal asesiad o'r angen am sgiliau iaith Gymraeg mewn perthynas â phob swydd newydd neu swydd wag a hysbyseb, yn unol â'i gynllun iaith Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad, ystyrir anghenion busnes y sefydliad ochr yn ochr â gofynion y cynllun iaith Gymraeg presennol er mwyn cefnogi'r nod o ddarparu gwasanaeth dwyieithog.

Yn ychwanegol at hynny, nodwyd y caiff gofynion ieithyddol eu nodi mewn hysbysebion am swyddi. Cadarnhawyd hefyd fod y sefydliad yn hysbysebu'r swyddi yn Gymraeg. Eglurwyd nad oedd yn datgan bod croeso i unigolion wneud cais am swydd yn Gymraeg ar hyn o bryd.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff [139–141]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 50% o'r ymrwymiadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff.⁸⁷

Cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod yn arddangos arwyddion tu fewn i adeiladau'r sefydliad yn Gymraeg, a bod y testun Gymraeg wedi'i osod fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Safonau ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff [142]

Wrth ddadansoddi ymrwymiadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, nid oedd yr ymrwymiadau'n cyfateb i'r safon ar gyfer cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff.⁸⁸

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa nad oedd cyhoeddiadau drwy gyfrwng offer sain yn cael eu gwneud o fewn gweithle'r sefydliad ar hyn o bryd.

⁸⁶ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁷ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

⁸⁸ Canran gyfartalog yr ymrwymiadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Er hynny, roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud y safon sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau gweithredu [170–175]

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud detholiad o safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

Mynegwyd pryder ynghylch y gwahanol ddulliau o gyhoeddi gwybodaeth, a hynny yn unol â'r gofynion. Nodwyd nad yw'n arferol cofnodi a chyhoeddi cofnodion, fel y rhai a amlinellwyd yn safon 170, ar ei wefan nac yn ei swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd. Er hynny, wrth ymateb i'r gofynion ynghlwm â safon 171, eglurwyd ei fod eisoes yn cyhoeddi dogfennau mewn perthynas â'i weithdrefn cwyno ar ei wefan ac yn ei swyddfeydd cyhoeddus, a hynny'n unol â pholisi Cymraeg mewnol a chynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa.

Yn ychwanegol at hyn, nodwyd bod cyhoeddi adroddiad blynyddol ynglŷn â chydymffurfio â'i gynllun iaith Gymraeg eisoes yn arfer cyfredol ganddo. Yng nghyswllt yr amserlen benodol a nodir yng nghymal 3 safon 173, nododd y sefydliad y byddai'n anodd cydymffurfio â'r amserlen honno oni bai ei bod yn cyd-fynd â'i drefniadaeth fewnol a'i ofynion cytundeb gyda Llywodraeth Cymru.

Safonau hybu [143–144]

Cadarnhaodd Career Choices Dewis Gyrfa nad oedd yn cydsynio i fod yn gymwysadwy i safonau hybu.

Safonau cadw cofnodion [145–157]

Wrth ddadansoddi ymrwymadau cyfredol cynllun iaith Gymraeg Career Choices Dewis Gyrfa, ar gyfartaledd roedd 92% o'r ymrwymadau'n cyfateb i'r safonau ar gyfer cadw cofnodion.⁸⁹

Wrth ddarparu gwybodaeth am y trefniadau corfforaethol sydd gan y sefydliad ar hyn o bryd mewn perthynas â chadw cofnodion, nododd Career Choices Dewis Gyrfa ei fod eisoes yn arfer cyfredol ganddo i weithredu yn unol â mwyafrif y safonau wrth iddo fonitro a mesur gweithrediad ei gynllun iaith Gymraeg.

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur.

⁸⁹ Canran gyfartalog yr ymrwymadau a geir yng nghynlluniau iaith Gymraeg y personau dan sylw, sy'n cyfateb i'r safonau, boed yn rhannol neu'n llawn.

Materion atodol

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol yng nghyswllt y safonau cadw cofnodion [178–179]

Roedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried y byddai gwneud detholiad o safonau sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn yn benodol gymwys iddo yn rhesymol a chymesur. Mewn perthynas â safon 178, nodwyd nad oedd yn cyhoeddi unrhyw gofnodion mewn print nac ar ei wefan fel yr amlinellir yn y safonau ar hyn o bryd.

5 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd

Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1)

Derbyniwyd 291 o ymatebion gan aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliadau safonau a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol. Derbyniwyd 155 o ymatebion i'r ymchwiliad safonau gan unigolion a ddewisodd gwblhau holiadur a ddarparwyd ar eu cyfer gan Gomisiynydd y Gymraeg ar y wefan.

Derbyniwyd 136 ymateb pellach yn seiliedig ar dempled o ymateb safonol a gyhoeddodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg; yn yr achos hwn roedd yr holl ymatebion yr un fath. Mewn 14 o achosion derbyniwyd ymateb gan unigolion ddwywaith. Digwyddodd hyn oherwydd bod unigolion wedi ymateb drwy gyfrwng ymgynghoriad y Comisiynydd yn ogystal â chwblhau templed Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Derbyniwyd 4 ymateb gan fudiadau neu sefydliadau eraill.⁹⁰ Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw i bob ymateb a dderbyniwyd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr a oedd yn fodlon i'w hymatebion gael eu cyhoeddi yn Atodiad B

Mae Ffigur 1 yn dangos o ble daeth yr ymatebwyr yn ôl eu grŵp a'u lleoliad daearyddol.

Ffigur 1 Nifer yr ymatebion i'r ymchwiliad safonau yn ôl lleoliad⁹¹

Lleoliadau	Nifer	Canran (%)
Abertawe	16	5%
Blaenau Gwent	1	0%
Bro Morgannwg	7	2%
Caerffili	5	2%
Casnewydd	0	0%
Castell-nedd Port Talbot	2	1%
Ceredigion	30	10%
Conwy	9	3%
Caerdydd	32	11%
Gwynedd	72	25%
Merthyr Tudful	3	1%
Pen-y-bont ar Ogwr	3	1%
Powys	9	3%
Rhondda Cynon Taf	13	4%
Sir Benfro	4	1%

⁹⁰ Ceir rhestr o'r mudiadau / sefydliadau hynny yn Atodiad B yr adroddiad safonau.

⁹¹ Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys yr holl ymatebion a ddaeth drwy'r holiadur, ynghyd â templed Cymdeithas yr Iaith.

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Sir Ddinbych	22	8%
Sir Fynwy	2	1%
Sir Gaerfyrddin	21	7%
Sir y Fflint	10	3%
Torfaen	1	0%
Wrecsam	4	1%
Ynys Môn	19	7%
Tu allan i Gymru	6	2%
Dim gwybodaeth	0	0%
Cyfanswm	291	100%

Ymateb y cyhoedd i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â Chyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1)

Safonau cyflenwi gwasanaethau


Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cyflenwi gwasanaethau, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw fod yn cynnal gweithgareddau safonau cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg, er mwyn eich galluogi chi fel aelod o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd canlynol?

Wrth ateb y cwestiwn hwn fel rhan o'r holiadur, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd ymateb fesul gweithgaredd sydd o fewn cwmpas safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae Ffigur 2 yn dangos amrywiaeth yr ymatebion a gafwyd.

Ffigur 2 Ymateb i gwestiwn 1 yr holiadur – Safonau cyflenwi gwasanaethau



Safonau llunio polisi

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau llunio polisi, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai penderfyniadau polisi'r sefydliadau dan sylw wella'r cyfleoedd sydd i chi ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, roedd 94% (146) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 146 a ymatebodd, roedd 93% (136) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw ystyried effaith eu penderfyniadau polisi, gan sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, gwell cyfleoedd i bersonau allu defnyddio'r Gymraeg yn ogystal â sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg.

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 3 Ymateb i gwestiwn 3 yr holiadur – Safonau llunio polisi⁹²



Safonau gweithredu

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb a chymesuredd y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau gweithredu, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:


A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, roedd 94% (146) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 146 a ymatebodd, roedd 93% (136) yn cytuno y dylai'r personau perthnasol dan sylw orfod hwyluso a defnyddio'r Gymraeg yn unol â diffiniad safonau gweithredu ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

⁹² Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 4 Ymateb i gwestiwn 4 yr holiadur – Safonau gweithredu⁹³



Safonau cadw cofnodion

Wrth geisio barn y cyhoedd ar resymoldeb y gofynion sydd ynghlwm wrth y safonau cadw cofnodion, gofynnwyd iddynt ymateb i'r cwestiwn isod yn yr holiadur:

A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sefydliadau dan sylw gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau'r Gymraeg a chadw cofnodion am gwynion?

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan Comisiynydd y Gymraeg, roedd 95% (148) wedi ateb y cwestiwn hwn. O'r 148 a ymatebodd, roedd 93% (138) yn cytuno y dylai'r cyfrifoldeb hwn gael ei osod ar y personau perthnasol dan sylw.

⁹³ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn

Dengys y ffigur isod sut yr ymatebodd aelodau'r cyhoedd i'r cwestiwn hwn:

Ffigur 5 Ymateb i gwestiwn 5 yr holiadur – Safonau cadw cofnodion⁹⁴




Sylwadau pellach

Yn ogystal â darparu ymatebion i gwestiynau penodol ar bwnc yr ymchwiliad safonau, rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd nodi unrhyw safonau ychwanegol y roeddent o'r farn y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau perthnasol dan sylw, ynghyd ag unrhyw sylwadau pellach a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad safonau hwn.

O'r 155 a ymatebodd drwy'r holiadur ar wefan y Comisiynydd, darparodd 49% (76) ohonynt sylwadau ychwanegol i'w hystyried gan Gomisiynydd y Gymraeg yn rhan o'r ymchwiliad safonau.

Ffigur 6 Sylwadau pellach a ddarparwyd gan aelodau'r cyhoedd



Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi bod gwendid anfwriadol, yn eu tyb hwy, yn y rheoliadau drafft, a hynny oherwydd nad yw'r safonau mewn perthynas â derbyn gwasanaeth Cymraeg wyneb yn wyneb yn mynd tu hwnt i gyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw a gwasanaeth mewn prif dderbynfeydd.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd personol yn y maes addysg gan dynnu sylw at y ffaith nad oeddent o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaeth Gymraeg

⁹⁴ Noder bod yr ystadegau hyn yn ymwneud â'r ymatebwyr a oedd wedi ateb y cwestiwn hwn. Mae talgrynnu ffigurau i rifau lawn yn golygu nad yw'r canrannau o reidrwydd yn adio'n union i 100%.

wyneb yn wyneb y tu hwnt i gyfarfodydd personol ac mewn derbynfeydd. Ategwyd at hynny gan nodi y dylid ymestyn y diffiniad i gyd-destunau amrywiol eraill.

Mewn cysylltiad â'r safonau yn ymwneud â chyrsgiau, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd ynghyd â sectorau eraill, a'r angen i bennu safonau a fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsgiau, gyda'r perygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrff neu rai sy'n cael eu rheoli gan y cyrff yn unig.

Nododd un ymatebwr y dylai'r safonau mewn perthynas â chorfforaethau addysg (bellach ac uwch) ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ymrwymo i ddarpariaeth addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn ogystal â'r adnoddau a dderbynnir drwy ffrydiau allanol. Ategwyd at hynny gan nodi y dylai'r cyrff dan sylw hefyd ysgogi galw gan fyfyrwyr, yn ogystal ag ymateb iddo. Nodir yr isod yn 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015.'⁹⁵

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr cwrs addysg yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chyrsgiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.

Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar yr uchod wrth bennu safonau, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach ac addysg uwch mewn rheoliadau.

Safonau gweithredu

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn nodi'r angen i bennu safonau a fyddai'n rhoi dyletswyddau ar brifysgolion i gynnig a darparu cyfleoedd i'w myfyrwyr yn Gymraeg (ac i'r di-Gymraeg ddysgu'r iaith yn rhugl), ynghyd â safon fyddai'n sicrhau bod dyletswydd arnynt mewn perthynas â hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

Undebau myfyrwyr corfforaethau addysg bellach ac uwch

Wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach ac addysg uwch, derbyniwyd nifer o sylwadau oedd yn nodi'r angen i wneud safonau'n gymwysadwy ac yn benodol gymwys i undebau'r myfyrwyr. Pwysleisiodd un ymatebwr y rhan hanfodol bwysig sydd gan undebau'r myfyrwyr wrth ddarparu gwasanaethau i'r myfyrwyr ar y cyd â'r corfforaethau dan sylw, gan gyfeirio'n benodol at gymorth a chynrychiolaeth academiaidd, yn ogystal â gwarchod lles a buddiannau'r myfyrwyr.

Cyfeiriodd yr ymatebwr dan sylw at y dylanwad uniongyrchol a phellgyrhaeddol a gaiff yr undebau ar brofiad myfyrwyr, ynghyd â'r ffaith eu bod yn derbyn symiau sylweddol o arian gan y corfforaethau dan sylw. Nodir hefyd fod cynllun iaith Gymraeg presennol un gorfforaeth yn cydnabod y berthynas sydd rhyngddi a'r undeb, a'r cyfrifoldeb sydd ganddi i'r perwyl hwnnw.

Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau o undebau myfyrwyr yn gweithredu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Er hynny, gan ystyried y gofynion ynghlwm â'r rheoliadau drafft, pwysleisiodd un ymatebwr mai tameidiog oedd hynny, ac yn aml yn

⁹⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

llawer o waith pwysu gan fyfyrwyr. Gyda hynny mewn golwg, mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg cynllunio strategol a chanolog sydd ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn undebau'r myfyrwyr, gan beri i'r undebau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I'r perwyl hwnnw, roedd yr ymatebwr o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau penodol yn cael eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg, a hynny er mwyn cydnabod y berthynas hollbwysig â'r undebau, ynghyd â'r ystod o wasanaethau a ddarperir ganddynt i fyfyrwyr ar ran y corfforaethau dan sylw. Ychwanegodd yr ymatebwr dan sylw ei fod o'r farn y byddai peidio â phennu safonau o'r math hwn yn golygu na chaiff hawliau ieithyddol myfyrwyr Cymru eu gwarchod, ac, o safbwynt y myfyrwyr hynny, ofer fyddai unrhyw ymgais i osod safonau ar lefel gorfforaethol.

6 Tystiolaeth a dderbyniwyd gan Banel Cyngori Comisiynydd y Gymraeg

Derbyniwyd tystiolaeth gan y Panel Cyngori yn unol â'r gofynion a amlinellir yn adran 63(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gan y Panel yn dangos cefnogaeth i bwrpas y rheoliadau sef gwireddu amcanion sylfaenol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011: bod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr un modd â'r hyn a nodwyd yng nghyswllt y personau y cynhaliwyd ymchwiliadau safonau iddynt yng nghylch 1, roedd y Panel o'r farn y dylid ystyried rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i'r personau perthnasol ochr yn ochr â'r cyd-destun. Roedd hynny, yn eu tyb hwy, yn cynnwys bwriad y ddeddfwriaeth a dymuniad y ddeddfwriaeth o ran statws cyfreithiol y Gymraeg; maint y sefydliadau dan sylw; eu hymwneud â'r cyhoedd; a'r gwahaniaeth rhwng gosod safonau a'r amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r safonau hynny.

Ategwyd hynny gan nodi y gellir ystyried rhesymoldeb a chymesuredd mewn un o ddwy ffordd. Gellid pennu safonau gwahanol i bersonau mewn ardaloedd gwahanol o Gymru gan adlewyrchu natur ieithyddol yr ardaloedd perthnasol, neu bennu safonau cyffredin ar draws Cymru gan ddatgan diwrnodau gosod gwahanol ar gyfer pryd y bydd yn ofynnol iddynt orfod cydymffurfio â safon(au). Er enghraifft, lle bo angen elfen o hyfforddiant staff er mwyn cydymffurfio â safon, gellid caniatáu rhagor o amser i berson gydymffurfio â safon o'i gymharu â pherson lle mae adnoddau staff priodol ar gael eisoes. Roedd y Panel unwaith eto'n gryf o'r farn mai'r ail ddull yw'r mwyaf addas i Gomisiynydd y Gymraeg ei weithredu yn y mwyafrif o achosion, gan ystyried bod sicrhau gwell cysondeb rhwng sefydliadau o ran darparu gwasanaethau Cymraeg yn un o brif amcanion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er hynny, derbyniwyd sylwadau gan y Panel ynglŷn â rhesymoldeb a chymesuredd gwneud y safonau'n benodol gymwys i bersonau sydd â'u pencadlys tu allan i Gymru, gan ei gwneud hi'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ar draws y DU. Pwysleisiwyd y dylid sicrhau bod unrhyw ofynion sydd yn cael eu gosod ar bersonau tebyg yn nodi'r amgylchiadau hynny lle bydd disgwyl iddynt gydymffurfio â safon(au).

Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1)

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Roedd y Panel o'r farn y dylid gwneud safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau yn benodol gymwys i sefydliadau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1), gan alluogi aelodau o'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfaoedd dan sylw.

Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, nododd y Panel eu bod o'r farn nad oedd unrhyw reswm pam na ddylai sefydliadau a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) allu cyflawni a chydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau dan sylw, a thrwy hynny yn ymwneud â'r cyhoedd yn gynyddol yn Gymraeg. Er hynny, roedd y Panel o'r farn y dylid sicrhau ychydig o hyblygrwydd mewn perthynas â rhai gweithgareddau, gan dynnu sylw penodol at gynhyrchu a chyhoeddi dogfennau, derbyn ceisiadau am grant, yn ogystal â chyrsgiau. Pwysleisiwyd mai hyblygrwydd mewn sefyllfaoedd neu amgylchiadau eithriadol fyddai ei angen, gan dynnu sylw'n benodol at ddogfennau a fyddai'n gyfyngedig o ran pwnc a'r gynulleidfa darged dybiedig.

Yn yr un modd, roedd y Panel o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i leoliadau canolfannau neu swyddfeydd y personau dan sylw wrth gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio. Ategwyd hynny gan nodi y byddai angen ystyried a fyddai'n rhesymol i bersonau o'r fath gydymffurfio â detholiad o'r safonau lle nad oes ganddynt bresenoldeb yng Nghymru. Pwysleisiwyd y cymalau perthnasol yn adran 44(3) y Mesur fel modd i'r Comisiynydd allu goresgyn sefyllfaoedd cyffelyb.

Safonau llunio polisi

Croesawyd y safonau llunio polisi a bennwyd yn y rheoliadau drafft gan y Panel. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r safonau hyn gael eu gosod ar bob person y cynhelir ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy yng nghylch 2, gan bwysleisio pwysigrwydd cydymffurfio â hwy ar bob lefel.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai penderfyniadau polisi y personau a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau gwell triniaeth i'r Gymraeg, ac y dylid gwneud safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

Safonau gweithredu

Roedd y Panel yn gytûn y dylai personau a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) orfod hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn unol â'r safonau gweithredu, ac y dylid gwneud safonau gweithredu'n benodol gymwys iddynt.

Safonau cadw cofnodion

Roedd y Panel yn unfryd o'r farn bod gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys i bersonau cylch 2 yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gweddill y safonau y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy.

Roedd y Panel yn gytûn y dylai personau a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) gadw cofnod yn dweud sut y mae'n cadw at safonau penodedig eraill, yn ogystal â chadw cofnodion o gŵynion. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gwneud safonau cadw cofnodion yn benodol gymwys iddynt.

7 Casgliadau'r ymchwiliad safonau

Sylwadau cyffredinol

Daethpwyd i'r casgliadau isod ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd gan y personau perthnasol, y cyhoedd a'r Panel Cynghori i bwnc yr ymchwiliad safonau ynghyd â thystiolaeth annibynnol a gasglwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yng nghyd-destun cynlluniau iaith y personau perthnasol dan sylw.

Nodir ym Memorandwm Esboniadol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai un o brif amcanion y ddeddfwriaeth oedd moderneiddio ac adeiladu ar y system o gynlluniau iaith Gymraeg a grëwyd o dan Ddeddf 1993. Yn yr un modd, nodir mai nod Llywodraeth Cymru wrth ddeddfu oedd sicrhau gwell cysondeb rhwng personau, yn enwedig rhwng personau yn yr un sector, o ran darparu gwasanaethau Gymraeg.

Yn yr un modd, nodir bod adran 42 y Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod rheoliadau'n darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â phob un o'r gweithgareddau a bennir yn Atodlen 9 yn benodol gymwys i berson os yw'r person, ac i'r graddau y mae'r person, yn gwneud y gweithgareddau hynny.

Er hynny, dylid nodi nad oes raid iddynt wneud hynny os yw'r Comisiynydd yn nodi mewn adroddiad safonau, neu os yw Gweinidogion Cymru o'r farn, y byddai'n afresymol neu'n anghymesur i safonau cyflenwi gwasanaethau fod yn benodol gymwys i berson mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw. Dylid nodi nad yw'r adran hon yn y Mesur yn atal rheoliadau o dan adran 39 rhag darparu bod safonau cyflenwi gwasanaethau eraill yn benodol gymwys i berson.

Yn unol â'r uchod, os amlygwyd drwy'r ymchwiliad safonau fod person yn gwneud y gweithgaredd⁹⁶, boed hynny i raddau mwy neu lai, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r holl safonau mewn perthynas â'r gweithgaredd hwnnw gael eu gwneud yn benodol gymwys iddo. Daethpwyd i'r casgliadau hynny gan fod y safonau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn gyd ddibynnol ar ei gilydd o fewn cwmpas gweithgaredd.

Nodir hefyd y gall y modd y cyflenwir gwasanaeth mewn perthynas â gweithgaredd newid yn y dyfodol ac y byddai angen addasu i adlewyrchu hynny drwy amrywio'r hysbysiad cydymffurfio, yn hytrach na mynd yn ôl at reoliadau.

Er hynny, lle ceir tystiolaeth nad yw person yn gwneud gweithgaredd o gwbl, boed hynny drwy dystiolaeth a ddaw yn rhan o'r ymchwiliad safonau, neu drwy ddulliau eraill, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad na ddylai safonau o dan y gweithgaredd hwnnw fod yn benodol gymwys iddo, oni bai fod rhesymau dilys dros wneud hynny.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd er mwyn llunio barn ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Gyda hynny mewn golwg, cred y Comisiynydd y dylid talu sylw dyledus i ymrwymiad Prifysgol Cymru i uno gyda Phrifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant wrth ddod i benderfyniad ar gynnwys hysbysiad cydymffurfio maes o law.

⁹⁶ [Gweithgaredd cyflenwi gwasanaethau fel y'i diffinnir yn adran 28 Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

Adroddiad Safonau Comisiynydd y Gymraeg – Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) – Adran 64 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru gynnig arweiniad pellach ar statws darpar fyfyrwyr a myfyrwyr. Mae rhai personau perthnasol sy'n perthyn i'r grwpiau hyn wedi nodi yn eu cynlluniau iaith Gymraeg eu bod yn ystyried myfyrwyr yn aelodau o'r cyhoedd. Er mwyn eglurder, dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder o ran statws myfyrwyr a darpar fyfyrwyr wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

Mae Comisiynydd y Gymraeg am eglurder gan Weinidogion Cymru ar statws Career Choices Dewis Gyrfa. Fel is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Lywodraeth Cymru, mae yna le i ddadlau y dylai Career Choices Dewis Gyrfa fod yn rhwym i'r safonau hynny sydd yn benodol gymwys i Weinidogion Cymru, ac y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â hwy maes o law. Enwyd darparwyr gwasanaethau gyrfaoedd yn Atodlen 6 o'r Mesur. Os bernir i statws cyfreithiol Career Choices Dewis Gyrfa olygu ei fod yn berson cyfreithiol ar wahân i Weinidogion Cymru, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliadau isod mewn perthynas â gwneud safonau'n benodol gymwys iddo.

Safonau y dylid eu gwneud yn benodol gymwys i Gyrrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1)

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) allu cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau perthnasol.

Unwaith eto, dymuna'r Comisiynydd nodi bwysigrwydd gwahaniaethu'n glir rhwng ymrwymadau person (yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt) a pherfformiad (i ba raddau maent yn cydymffurfio â'r disgwyliadau hynny ar hyn o bryd). Mae pob cynllun iaith Gymraeg yn dwyn awdurdod llawn y person wrth ddod i gytundeb ar gynnwys. Byddai peidio â phennu safonau sy'n gydradd, a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau dan sylw, yn gam yn ôl ac yn mynd yn groes i fwriad Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Nodir bod perfformiad, ynghyd â'r graddau y gall person gydymffurfio â safon ar gyfnod penodol, yn fater ymarferol. Gall y graddau hynny wella, gwaethygu neu aros yr un fath. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y dylai ymrwymadau ddiwallu anghenion defnyddwyr y Gymraeg y maent yn eu gwasanaethu, gydag amserlen resymol wedi ei phennu ar gyfer delio ag unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried y rhwystrau hynny wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Cydnabyddir i'r personau ddynodi heriau a rhwystrau posib rhag cydymffurfio'n llawn â rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth. Serch hynny, mae'r Comisiynydd o'r farn y gellid cwrdd ag ymrwymadau cymesur ag anghenion defnyddwyr y Gymraeg gydag amserlen resymol ar gyfer gweithredu ac ymdrin ag unrhyw heriau.

Daeth yn amlwg yn y dystiolaeth gan y personau perthnasol fod ansicrwydd ynghylch diffiniad a chwmpas rhai o'r safonau cyflenwi gwasanaeth ynghyd â'r graddau y mae'r safonau hynny'n berthnasol i'r gweithgareddau academiaidd ac addysgol a gyflenwir ganddynt.

Nodwyd gan rai o'r corfforaethau addysg uwch nad oedd y safonau cyflenwi gwasanaeth, yn eu ffurf gyfredol, yn addas ar gyfer eu gweithgareddau academiaidd ar hyn o bryd. Mynegwyd pryderon a nodwyd bod amwysedd ynghylch y graddau y mae'r safonau yn cwmpasu rhai o'r gweithgareddau canlynol a gyflenwir gan y personau perthnasol:

- darparu a chynnal darlithoedd (cyhoeddus)
- darparu a chynnal cynadleddau academiaidd
- cyd-weithio gyda mentrau ymchwil
- cyd-weithio â diwydiant
- arddangos a chyhoeddi deunydd academiaidd

Casgliad 1: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder mewn perthynas â'r gweithgareddau uchod, gan eu gwneud yn gynwysedig o fewn un neu ragor o'r gweithgareddau cyflenwi gwasanaeth cyfredol, wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

O'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y personau perthnasol, gwelwyd bod gwahanol ddehongliadau ymysg personau o ddyfarnu ar geisiadau am grant, ac yn benodol iawn, cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr. Cesglir rhai eu bod yn dyfarnu grantiau, a hynny'n seiliedig ar gynnig grant o'r fath. Bu i eraill gasglu nad oeddent yn dyrannu grantiau wrth gydnabod eu bod yn cynnig cymorth ariannol i fyfyrwyr oedd ei hangen.

Yn yr un modd, cyflwynodd nifer o'r corfforaethau addysg uwch dystiolaeth ynghylch dyfarnu ar geisiadau am ysgoloriaethau, gwobrau a bwrseriaethau i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr, wrth ystyried y gofynion ynghlwm â safonau 69-73.

Casgliad 2: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod gweinyddiad cynnig cymorth ariannol i fyfyrwyr yn gynwysedig yn y gweithgaredd mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant, wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

Adnabyddir hefyd y ffaith bod personau wedi nodi nad oeddent yn gwneud pob un o'r gweithgareddau dan sylw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb o fewn sectorau, lle bo o leiaf un person o fewn grŵp wedi nodi eu bod yn gwneud gweithgaredd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid gwneud y gweithgaredd hwnnw'n benodol gymwys i'r holl bersonau o fewn y grŵp hwnnw. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr anghysonderau hynny ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio unigol a gyflwynir o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Ymhellach, derbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd yn nodi y dylai'r safonau mewn perthynas â chorfforaethau addysg (bellach ac uwch) ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ymrwymo i ddarpariaeth addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn ogystal â'r adnoddau a dderbynnir drwy ffrydiau allanol. Ategwyd at hynny gan nodi y dylai'r sefydliadau dan sylw hefyd ysgogi galw gan fyfyrwyr, yn ogystal ag ymateb iddo.

Casgliad 3: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- gohebiaeth a anfonir gan gorff
- galwadau ffôn i gorff a chan gorff
- cyfarfodydd a gynhelir gan gorff nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol
- cyfarfodydd a drefnir gan gorff sy'n agored i'r cyhoedd
- digwyddiadau cyhoeddus a drefnir neu a ariennir yn eu cyfanrwydd gan gorff
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu gan gorff
- arddangos deunydd yn gyhoeddus
- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi dogfennau

- corff yn cynhyrchu a chyhoeddi ffurflenni
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein corff
- arwyddion a arddangosir gan gorff
- derbyn ymwelwyr i adeiladau'r corff
- corff yn gwneud hysbysiadau swyddogol
- corff yn dyfarnu am dendrau am gontract
- codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan gorff
- hunaniaeth gorfforaethol corff

Casgliad 4: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau corfforaethau addysg uwch a chorfforaethau addysg bellach:

- cyrsiau a ddarperir gan gorff
- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Cododd Prifysgol Caerdydd gwestiwn ynghylch union gwmpas diffiniad o 'gwrs addysg' a geir yn nogfen 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015,' a hynny gan ystyried swyddogaethau addysgol corfforaethau addysg uwch.

Yn yr un modd, nododd Career Choices Dewis Gyrfa fod pob 'cwrs addysg' a gyflwynir ganddo yn cael ei ddarparu er mwyn gweithredu dyletswydd gyfreithiol Gweinidogion Cymru i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i bersonau ifanc o oedran ysgol, gan gynnwys y rhai mewn addysg bellach. Nodwyd bod y ddyletswydd honno yn unol ag adran 8 Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973.

Er hynny, dylid nodi bod 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015'⁹⁷ yn cadarnhau'r isod:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr cwrs addysg yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chyrtsiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.

O ganlyniad, nid oedd Career Choices Dewis Gyrfa yn ystyried bod y safonau'n berthnasol iddo. Mynegwyd hynny gan gyfeirio at y cyfyngiad a nodir yn y diffiniad o 'gwrs addysg' mewn perthynas â'r gweithgareddau a chyrtsiau sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol â deddfiad.⁹⁸

At hynny, nid yw'n eglur a fyddai swyddogaethau Career Choices Dewis Gyrfa a gyflenwir ganddo yn unol â'r deddfiad uchod yn gynnwysedig o fewn y diffiniad hwn.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

⁹⁷ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

⁹⁸ Paragraffau 37-38, Rhan 3, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Gweinidogion Cymru, Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol, ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) 2015

Casgliad 5: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ynghylch cwrpas diffiniad o 'gwrs addysg' mewn perthynas â'r materion uchod wrth bennu safonau mewn rheoliadau, a'u gwneud yn benodol gymwys i ddarparwyr gwasanaethau gyrfaedd.

Casgliad 6: Ar sail y diffiniad presennol o'r rheoliadau, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp darparwyr gwasanaethau gyrfaedd:

- cyrsiau a ddarperir gan gorff

Bu i bob person o fewn y grŵp darparwyr gwasanaethau gyrfaedd nodi ei fod yn ystyried y byddai gwneud y safonau mewn perthynas â systemau annerch cyhoeddus yn benodol gymwys iddynt yn rhesymol a chymesur.

Casgliad 7: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grŵp darparwyr gwasanaethau gyrfaedd:

- systemau annerch cyhoeddus a ddefnyddir gan gorff

Cadarnhaodd mwyafrif y personau a ddaw o fewn y grwpiau corfforaethau addysg uwch a chorfforaethau addysg bellach eu bod yn gwneud y gweithgareddau ynghlwm â'r safonau mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant yn Gymraeg, ac y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau'n benodol gymwys iddynt.

Er hynny, cadarnhaodd y Brifysgol Agored ei bod ar hyn o bryd yn y broses o drosglwyddo'r cyfrifoldebau yn ymwneud â dyfarnu ar geisiadau am grant yn raddol i Gyllid Myfyrwyr Cymru a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Ategodd Prifysgol Cymru at hynny, gan nodi bod y cyfrifoldeb o weithredu'r gweithgareddau ynghlwm â dyfarnu ar geisiadau am grant yn cael ei drosglwyddo i ymddiriedolaeth annibynnol o 2015 ymlaen.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Casgliad 8: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn y grwpiau corfforaethau addysg uwch a chorfforaethau addysg bellach:

- corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.

Nododd Career Choices Dewis Gyrfa nad oedd yn dyfarnu ar geisiadau am grant. Er hynny, dylid ystyried i ba raddau y dylid gwneud y safonau hyn yn benodol gymwys i ddarparwyr gwasanaethau gyrfaoedd fel gweithgaredd y gallai Career Choices Dewis Gyrfa ymgymryd ag ef yn y dyfodol.

Casgliad 9: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgaredd isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol o fewn y grŵp darparwyr gwasanaethau gyrfaoedd, i'r graddau bod y pŵer a'r swyddogaethau gan y person perthnasol:

- corff yn dyfarnu ar geisiadau am grant.

Safonau llunio polisi

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai penderfyniadau polisi sefydliadau a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhesymau'r Comisiynydd dros ddod i'r casgliad hwn yw fod eisoes disgwyl i nifer o'r personau hyn asesu goblygiadau ieithyddol polisiâu a mentrau newydd yn ystod y broses o'u creu a'u hadolygu. Cadarnhawyd hyn oll yn y dystiolaeth a dderbyniwyd ganddynt fel rhan o'r ymchwiliad safonau hwn.

Ymhellach, nododd mwyafrif helaeth y personau o fewn pob grŵp yn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) y byddai'n rhesymol a chymesur gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys iddynt.

Cydnabyddir bod materion wedi eu codi ynghylch gallu rhai o'r personau i gydymffurfio â holl ofynion y safonau. Nododd Career Choices Dewis Gyrfa, a rhai o'r corfforaethau addysg bellach, nad oeddent yn dyfarnu grantiau, ac felly nad yw elfennau o'r safonau sydd yn cyfeirio at grantiau yn berthnasol i gyd-destun gwaith y sefydliad. Ateggodd Prifysgol Cymru hynny, gan nodi bod y cyfrifoldeb o weithredu'r gweithgareddau ynghlwm â dyfarnu ar geisiadau am grant yn cael ei drosglwyddo i ymddiriedolaeth annibynnol o 2015 ymlaen. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried yr amgylchiadau hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r mesurau gofynnol sy'n sail ar gyfer cynnwys cynlluniau iaith Gymraeg i'w gweld ar ffurf canllawiau statudol a gymeradwywyd gerbron Tŷ'r Cyffredin (cymeradwywyd Canllawiau ar Ffurf a Chynnwys Cynlluniau Iaith gan Senedd y DU ar 19 Gorffennaf 1995). Nodir yn y canllawiau hynny y dylai sefydliadau orfod pennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth asesu effaith polisiâu, strategaethau a mentrau newydd, ac yn eu gweithredu.

Casgliad 10: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau llunio polisi fod yn benodol i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau gweithredu

Noda adran 30 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mai ystyr safon gweithredu yw:

safon y bwriedir iddi hybu neu hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- (i) *gan A wrth i A wneud ei weithgareddau perthnasol,*
- (ii) *gan A a pherson arall wrth iddynt ddelio â'i gilydd mewn cysylltiad â gweithgareddau perthnasol A, neu*
- (iii) *gan berson heblaw A wrth iddo wneud gweithgareddau at ddibenion gweithgareddau perthnasol A, neu mewn cysylltiad â hwy.*

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod rhai elfennau ynghlwm wrth y safonau gweithredu yn newydd i nifer o'r personau perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1). I'r un perwyl, derbyniwyd rhai enghreifftiau lle nad oes trefniadau ar gael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion ar hyn o bryd. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried hyn ymhellach wrth benderfynu ar gynnwys hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Wrth ystyried hynny, mae'n bosibl y bydd angen sicrhau mwy o amser er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r gofynion.

Er yr uchod, dylid nodi bod nifer o'r gofynion yn bethau sy'n ddisgwyliedig i nifer o bersonau eu gwneud o dan gynlluniau iaith Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys pennu mesurau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol; mesurau i glustnodi'r swyddi hynny lle'r ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle'r ystyrir ei fod yn ddymunol, ynghyd â mesurau i asesu'r angen am hyfforddiant a'i ddarparu i gyflogeion.

I'r perwyl hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw'r Comisiynydd i'r casgliad ei bod yn rhesymol a chymesur i'r personau hyn alluogi eu gweithwyr i wneud eu gweithgareddau perthnasol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Darparodd nifer o'r corfforaethau addysg uwch dystiolaeth ynghylch systemau mewnrwyd i fyfyrwyr wrth ystyried y gofynion ynghlwm wrth safonau 118–124.

Casgliad 11: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ynghylch cwmpas diffiniad o 'mewnrwyd' i fyfyrwyr yng nghyswllt yr uchod wrth bennu safonau mewn rheoliadau.

Gyda'r elfennau hynny nad ydynt wedi eu gwreiddio yn eu cynllun iaith Gymraeg, neu'n weithredol ar hyn o bryd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y byddai caniatáu amser digonol iddynt ymgynhyddu at y nod polisi newydd hwn, yn ogystal â chynnwys mesurau lleddfu eraill mewn hysbysiadau cydymffurfio, lle bo'n briodol, yn rhesymol a chymesur.

Daw'r Comisiynydd i'r un casgliadau ar gyfer y sefydliadau hynny sydd wedi nodi nad oes ganddynt staff sy'n medru'r Gymraeg ar hyn o bryd, a hynny er mwyn eu galluogi hwy i weithredu'r dosbarthiadau eraill o safonau.

Casgliad 12: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau gweithredu mewn perthynas â'r materion isod fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn:

- safonau ynghylch defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff
- safonau ynghylch cwynion gan aelodau o staff corff
- safonau ynghylch corff yn disgyblu staff
- safonau ynghylch technoleg gwybodaeth a deunyddiau cymorth a ddarperir gan corff, ac ynghylch y fewnwyd
- safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu
- safonau ynghylch recriwtio gan corff
- safonau ynghylch arwyddion a arddangosir yng ngweithle corff
- safon ynghylch cyhoeddiadau a negeseuon sain yng ngweithle corff

Safonau cadw cofnodion

Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau hwn, ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai'r personau a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) gadw cofnod yn dweud sut y maent yn cadw at safonau y disgwylir iddynt gydymffurfio â hwy, yn ogystal â chwynion. Mae'n ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i'r sefydliadau dan sylw bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

Eglurodd mwyafrif y personau perthnasol eu bod yn cytuno ei fod yn rhesymol ac yn gymesur i'r safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys iddynt hwy, neu eu bod yn ystyried bod sawl agwedd o'r safonau eisoes ar waith ganddynt. Cesglir y gallai mwyafrif y personau gydymffurfio â'r gofynion ynghlwm â'r safonau cadw cofnodion maes o law.

Casgliad 13: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cadw cofnodion fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Safonau hybu

Cadarnhaodd Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Caerdydd yn ogystal â Choleg Cambria, Coleg Penybont, a Choleg Sir Benfro o fewn yr adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1) eu bod yn dymuno cydsynio i wneud safonau hybu yn gymwysadwy iddynt

Casgliad 14: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau hybu fod yn benodol gymwys i Brifysgol Glyndŵr, Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerdydd, Coleg Cambria, Coleg Penybont a Choleg Sir Benfro.

Safonau sy'n ymdrin â materion atodol

Ceir darpariaethau ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ymwneud â threfniadau monitro a gofynion adrodd ar gyfer y gyfundrefn safonau (Adran 27 - Darpariaethau Atodol). Yn dilyn cymeradwyaeth 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015'⁹⁹ yng Nghyfarfod Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Mawrth 2015, pennwyd safonau sy'n ymdrin â materion atodol o dan adran 26 y Mesur.

Noda Comisiynydd y Gymraeg ei bod yn ofynnol o dan gynlluniau iaith Gymraeg i bennu camau sydd i'w cymryd i gyhoeddi gwybodaeth ar berfformiad y sefydliad yn erbyn y gofynion statudol.

Mae dogfen polisi Llywodraeth Cymru, 'Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio',¹⁰⁰ yn egluro mai rôl arolygwyr yw 'gwirio'n annibynnol gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phŵer cyfreithiol'. Caiff hynny ei ategu gan Adroddiad Crerar ar arolygu yn yr Alban, sy'n nodi mai rôl arolygwyr allanol yw darparu sicrwydd annibynnol fod gwasanaethau'n cael eu rheoli'n dda ac yn addas i bwrpas. Yn ôl Crerar, pum prif egwyddor arolygu yw'r angen i ganolbwyntio ar y cyhoedd; annibyniaeth; cymesuredd; tryloywder ac atebolrwydd. Mae cynigion Crerar yn gyson ag egwyddorion Hampton, sy'n nodi y dylai arolygu ddigwydd ar sail risg; na ddylid cynnal arolygon heb reswm ac y dylai rheoleiddwyr allu rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch.

Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth hefyd nad oes modd i gyrrff arolygu oruchwylio popeth y mae darparwyr gwasanaethau yn ei wneud. Hynny yw, mae disgwyliad cynyddol ar ddarparwyr gwasanaeth i gael trefniadau craffu ac archwilio mewnol cadarn. Ymhellach at hynny, mae hunanasesu yn chwarae rhan gynyddol bwysig mewn trefniadau arolygu allanol.

Ymhellach, bu i bersonau godi'r mater o amserlen nifer o'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol. Cyfeiriwyd yn benodol at y defnydd o flwyddyn ariannol fel cyfnod o gofnodi gwybodaeth at ddibenion adrodd ar berfformiad. Mynegwyd ffafriaeth ar gyfer dilyn patrwm blynyddoedd academiaidd yn lle. Er hynny, dylid sicrhau cysondeb o ran yr amserlen adrodd a nodir yn 'Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015',¹⁰¹ yng nghyswllt yr uchod.

Casgliad 15: Yn sgil cynnal yr ymchwiliad safonau, ac wrth ystyried yr uchod, daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol fod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

⁹⁹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

¹⁰⁰ <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/inspectionpolicystatement/090930inspstatementcy.pdf>

¹⁰¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Safonau ychwanegol y dylid eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i'r personau a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1)

Nodir isod yn adran 64 (3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

Os –

- (a) casgliadau'r ymchwiliad safonau (boed yn llwyr neu'n rhannol) yw y dylai safonau fod yn benodol gymwys i berson, a
- (b) nad yw unrhyw un neu ragor neu'r oll o'r safonau hynny wedi ei phennu neu eu pennu gan Weinidogion Cymru o dan adran 26(1), rhaid i'r adroddiad safonau nodi'r safonau sydd heb eu pennu.

Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylid pennu safonau ychwanegol at y rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Tachwedd 2014. Lluniwyd y farn hon yn dilyn derbyn tystiolaeth gan y cyhoedd a chan y personau perthnasol fel rhan o'r ymchwiliad safonau.

Gweithgareddau: cyfryngau cymdeithasol; peiriannau hunanwasanaeth

Ers i gyfnod yr ymchwiliad safonau ddirwyn i ben, fe osodwyd fersiwn drafft o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2015. Derbyniodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r Rheoliadau hyn yng Nghyfarfod Llawn 24 Mawrth 2015. Gwelwyd safonau cyflenwi gwasanaeth ynghylch defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â pheiriannau hunanwasanaeth yn ychwanegol at yr ystod o weithgareddau a oedd yn destun yr ymchwiliad safonau hwn. Safonau 58, 59 a 60 yw'r safonau hyn ymhlith Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) (Cymru) 2015.¹⁰²

Casgliad 16: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod rheoliadau yn gwneud darpariaeth i safonau cyflenwi gwasanaethau mewn perthynas â'r gweithgareddau isod yn benodol gymwys i bob person perthnasol a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn, pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn bod y gweithgareddau isod yn rhai gallasai'r personau fod yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd, neu yn y dyfodol:

- defnydd corff o'r cyfryngau cymdeithasol
- peiriannau hunanwasanaeth

Deallir gan Lywodraeth Cymru nad yw'r safonau cyflenwi gwasanaeth sy'n ymwneud â chyrsgiau a ddarperir gan gorff (82–84) yn ymdrin â chyrsgiau a ddarperir fel rhan o gwricwlwm. Golyga hyn nad yw'r safonau fel y'u cyhoeddwyd ar 7 Tachwedd 2014 yn ymhél â darpariaeth addysgol personau perthnasol a ddaw o fewn adroddiad Cyrff Cyhoeddus: Cyffredinol (1).

Mae amrediad o ystyriaethau ynghlwm â chyflawni'r nodau uchod, a gellid pennu safonau sydd yn adlewyrchu hynny. Rhaid ystyried mesur y galw am ddarpariaeth addysg (neu hyfforddiant) cyfrwng Cymraeg, ynghyd â gallu a sgiliau'r gweithlu i ddiwallu'r galw.

¹⁰² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Casgliad 17: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safon(au) mewn perthynas â'r isod, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach a chorfforaethau addysg uwch:

1. mesur y galw am ddarpariaeth addysg a/neu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg;
2. mesur a chofnodi'r angen am sgiliau galwedigaethol yn y Gymraeg yn y gweithlu a chymryd camau priodol i sicrhau y cynllunnir i ddiwallu'r galw hwnnw fel rhan o'r ddarpariaeth addysg a/neu hyfforddiant a gynigir.

Gweithgaredd: cyfarwyddyd gyrfaoedd

Mae dysgwyr 14–19 oed yn meddu ar yr hawl i gael cyfarwyddyd arbenigol ynghylch eu gyrfa. Ymdriniwyd â chynnig cyfarwyddyd gyrfaoel eisoes yn y cynlluniau iaith Gymraeg perthnasol.

Casgliad 18: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safon(au) ar gyfer darparu cyfarwyddyd gyrfaoedd, er mwyn amlinellu manteision y Gymraeg wrth gynnig cyngor neu gyfarwyddyd gyrfaoedd i ddysgwyr, a'u gwneud yn benodol gymwys i bob person a ddaw o fewn yr adroddiad safonau hwn.

Gweithgaredd: Undebau myfyrwyr

Fel y gwelwyd wrth drafod ymatebion aelodau'r cyhoedd i'r ymchwiliad safonau, derbyniwyd nifer o sylwadau ynghylch yr angen i wneud safonau'n gymwysadwy ac yn benodol gymwys i'r undebau myfyrwyr. Mynegwyd y farn fod undebau myfyrwyr yn chwarae rhan bwysig gan ddarparu gwasanaethau i fyfyrwyr a chyfrannu at brofiad y myfyriwr. Er nad yw'n arfer sefydlog, mae yna gynsail o gynlluniau iaith Gymraeg yn cydnabod y berthynas sydd rhwng corfforaeth â'r Undeb, a chyfrifoldeb y gorfforaeth yn hynny o beth.

Casgliad 19: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safon(au) sydd yn ymwneud â gosod amodau iaith Gymraeg wrth ddyrannu grantiau, neu ddarparu unrhyw gymhorthdal ariannol arall i undeb myfyrwyr, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach a chorfforaethau addysg uwch.

Gweithgaredd: Cyflwyno gwaith a sefyll arholiadau

Mae cynsail wedi'i sefydlu ymysg rhai personau perthnasol o fewn y grwpiau corfforaethau addysg uwch a chorfforaethau addysg bellach er sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Er nad yw'n arfer sefydlog drwyddi draw, gwelwyd enghreifftiau mewn cynlluniau iaith Gymraeg o bersonau'n sefydlu'r hawl i fyfyrwyr gyflwyno gwaith, er enghraifft aseiniadau, ac i sefyll arholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylid nodi bod Comisiynydd y Gymraeg wedi derbyn cwynion yn y gorffennol mewn perthynas ag ansawdd cyfieithiadau gwaith myfyrwyr.

Casgliad 20: Daw Comisiynydd y Gymraeg i'r casgliad y dylai Gweinidogion Cymru bennu safonau mewn perthynas â'r isod, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach a chorfforaethau addysg uwch:

- **galluogi myfyrwyr i gyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, ar ffurf aseiniadau neu arholiadau, a**
- **sicrhau nad yw cyfieithiadau o waith myfyrwyr yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

8 Y camau nesaf

Wrth ddarparu'r adroddiad safonau hwn mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ystyried yr holl ymatebion a gyflwynwyd i'r ymchwiliad safonau. Caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r isod yn unol ag adran 64(4) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:

- pob person perthnasol
- Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg
- pob person a gymerodd ran yn ymgynghoriad y Comisiynydd yn unol ag adran 63
- Gweinidogion Cymru.

Ochr yn ochr ag ymchwiliadau safonau Comisiynydd y Gymraeg, disgwylir i Weinidogion Cymru gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth berthnasol y maent yn bwriadu ei gwneud, gan ddefnyddio eu pwerau is-ddeddfwriaethol eu hunain.

Noda Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mai asesiad effaith rheoleiddiol yw'r isod:

'A regulatory impact assessment is an assessment as to the likely costs and benefits of complying with relevant Welsh subordinate legislation'.¹⁰³

Yn hyn o beth, gall asesiad effaith rheoleiddiol gael ei ystyried:

- yn broses i helpu Gweinidogion Cymru ystyried effaith y rheoliad arfaethedig ar fuddiannau unigolion, grwpiau, sefydliadau ac ati.
- yn gyfrwng i alluogi Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur costau a manteision yr holl opsiynau sydd ar gael iddynt cyn gweithredu polisi; ac
- yn fodd o gyflwyno'r dystiolaeth berthnasol ar effeithiau cadarnhaol a negyddol ymyriadau o'r fath at ddibenion craffu ar y dystiolaeth honno.¹⁰⁴

Bydd disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt at ddibenion yr asesiad effaith rheoleiddiol, ochr yn ochr â chasgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn adroddiad safonau wrth benderfynu a ddylent arfer y pwerau sydd wedi eu rhoi iddynt o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ai peidio.

Cadarnhaodd y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru mewn datganiad ar 24 Mawrth 2015 y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y broses o gyflwyno rheoliadau ar gyfer y personau perthnasol a nodir yn yr adroddiad hwn yn dechrau erbyn diwedd 2015, gyda dadl a phleidlais ar gymeradwyo'r rheoliadau yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

¹⁰³ Adran 76(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

¹⁰⁴ <http://wales.gov.uk/docs/legislation/guidance/091020riacodecy.doc>

Atodiad A – Sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan y cyhoedd ar ymchwiliadau safonau cylch 2

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gyffredinol gefnogol i'r cysyniad o bennu safonau, a hynny er mwyn sicrhau hawliau clir i siaradwyr Cymraeg mewn perthynas â'r gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr holl sefydliadau sydd wedi eu cynnwys yng nghylch 2.

Mynegwyd cryn awydd unwaith eto gan y cyhoedd i sicrhau bod y safonau a gaiff eu pennu yn rhai sy'n glir, yn gadarn ac yn ddealladwy i bobl gyffredin. Ategwyd hynny gan nodi mai drwy hynny yn unig y sicheir y caiff hawliau siaradwyr Cymraeg eu gwarchod,

Amlinellir isod brif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd o blaid gwneud y safonau'n benodol gymwys:

- yr angen am sicrhau bod y safonau a bennir yn adlewyrchu'n llawn argymhellion Ymholiad Iechyd Comisiynydd y Gymraeg
- yr angen am sicrhau bod safonau yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau Cymraeg yn ddiofyn, gan sicrhau bod y cysyniad o gynnis rhagweithiol yn gyson drwyddi draw
- sicrhau nad yw'r broses o ddyfarnu neu ddelio â thendr neu gontract uwchlaw'r angen am osod amodau iaith Gymraeg ar y grantiau/contractau a ddosberthir gan sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2
- yr angen am sicrhau bod safonau mewn perthynas â gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i brif dderbynfeydd a chyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw
- yr angen am sicrhau eglurder bod y diffiniad o gyfarfodydd personol yn cynnwys pob cyswllt wyneb-yn-wyneb
- yr angen am bennu safon sydd yn gosod gofynion clir ar bolisiau recriwtio sefydliadau.

Derbyniwyd rhai ymatebion gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn mynegi gwrthwynebiad cyffredinol i ddyletswyddau iaith.

Amlinellir prif themâu'r ymatebion a dderbyniwyd a oedd yn erbyn gwneud y safonau'n benodol gymwys isod:

- yr angen i ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, a'r modd y caiff arian cyhoeddus ei wario ar y Gymraeg
- blaenoriaethu meysydd polisi eraill dros y Gymraeg
- perthnasedd y Gymraeg yng Nghymru
- anghytuno â'r gofyniad y dylai'r Gymraeg ymddangos neu gael ei chyhoeddi'n gyntaf.

Safonau cyflenwi gwasanaethau

Derbyniwyd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn galw am yr angen i sicrhau y caiff safonau penodol eu pennu ar gyfer y cyrff iechyd sydd yn adlewyrchu canfyddiadau Comisiynydd y Gymraeg yn ei hadroddiad 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad Comisiynydd y Gymraeg i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol'. Ategwyd at hynny drwy nodi y dylid pennu safonau mewn perthynas â chontractau cenedlaethol â meddygon teulu a darparwyr gofal sylfaenol.

Derbyniwyd sylwadau oedd yn nodi bod gwendid anfwriadol, yn eu tyb hwy, yn y rheoliadau drafft, a hynny oherwydd nad yw'r safonau mewn perthynas â derbyn gwasanaeth Cymraeg wyneb-yn-wyneb yn mynd tu hwnt i gyfarfodydd personol sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw a gwasanaeth mewn prif dderbynfeydd. Yn yr un modd, nodwyd ei bod yn hollbwysig fod rheoliadau mewn perthynas â chyrrff iechyd yn pennu safonau cyfarfodydd personol sy'n cwmpasu apwyntiadau, ymgynghoriadau a phob cyswllt wyneb-yn-wyneb arall o'r fath.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfarfodydd personol yn y maes iechyd, y maes addysg a'r maes cyfiawnder, gan dynnu sylw at y ffaith nad oeddent o'r farn y byddai'r rheoliadau drafft yn sicrhau darpariaeth Gymraeg wyneb-yn-wyneb y tu hwnt i gyfarfodydd personol ac mewn derbynfeydd. Ategwyd hynny gan nodi y dylid ymestyn y diffiniad i gyd-destunau amrywiol eraill.

Derbyniwyd nifer o ymatebion a oedd yn cefnogi'r safonau mewn perthynas â chyfarfodydd nad ydynt yn agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, a hynny gan gofio bod nifer o sefydliadau yn y maes cyfiawnder wedi eu cynnwys yng nghylch 2. Er bod y safonau yn cyfeirio at fuddiant neu lesiant personol, mynegwyd pryder gan rai nad oedd yn gwbl eglur a fyddai hynny'n cwmpasu hawl person i gael ei gyfweld yn Gymraeg yn y cyd-destun uchod.

Yng nghyd-destun arwyddion, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod arwyddion electronig ac arddangosfeydd clywedol mewn lleoedd megis amgueddfeydd yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Yn yr un modd, nodwyd y dylai uwchdeitlau ac is-deitlau mewn dramâu a pherfformiadau fod o fewn y diffiniad o arwyddion hefyd, gyda golwg ar osod safonau ar bersonau megis y Theatr Genedlaethol ac Opera Cenedlaethol Cymru.

Mewn cysylltiad â'r safonau yn ymwneud â chyrsgiau, pwysleisiodd nifer o ymatebwyr bwysigrwydd hyfforddiant proffesiynol ym maes iechyd yn ogystal â sectorau eraill, a'r angen am bennu safonau a fyddai'n gwarantu cyrsiau datblygiad proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hynny, mynegwyd pryder ynglŷn ag eglurder y diffiniad o gyrsiau, gyda'r perygl y gellid gweld cyrsiau sy'n agored i'r cyhoedd fel rhai ar gyfer aelodau o'r cyrff neu rai sy'n cael eu rheoli gan y cyrff yn unig. Nododd un ymatebwr bwysigrwydd y safonau hyn mewn perthynas â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Wrth ymateb i'r safonau mewn perthynas â dyfarnu ar geisiadau am grant, cyfeiriodd nifer o unigolion at bwysigrwydd pennu safonau a fyddai'n sicrhau bod amodau iaith Gymraeg yn cael eu gosod ar y grantiau a ddsberthir gan y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yng nghylch 2. Rhoddwyd pwyslais ar gyrrff megis Chwaraeon Cymru, Cyngor y Celfyddydau a'r Gronfa Loteri Fawr, gan nodi eu bod yn sefydliadau lle mae dosbarthu grantiau yn hollbwysig o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg a darpariaeth Gymraeg.

I'r un perwyl, nododd rhai ymatebwyr y dylid pennu safon ychwanegol mewn perthynas â dyfarnu ar dendrau am gontract, gyda golwg ar sicrhau bod cwmnïau cynhyrchu annibynnol sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau ar ran S4C hefyd yn dod o dan ddyletswydd i symud tuag at ddefnydd mewnol o'r Gymraeg yn eu gweithgareddau dan gontract i'r Sianel Gymraeg.

Mynegwyd pryderon gan nifer o aelodau o'r cyhoedd nad oedd safon wedi ei phennu yn y rheoliadau drafft ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Ategwyd hynny gan nodi bod y cyn-Weinidog Llywodraeth Leol wedi datgan y byddai safonau yn ymwneud â'r broses penodiadau cyhoeddus er mwyn gosod trothwyon ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg.

Wrth ystyried y safonau mewn perthynas â hysbysiadau swyddogol, nododd nifer o ymatebwyr y dylid sicrhau bod y safonau hynny'n cael eu gwneud yn benodol gymwys i bob sefydliad sydd wedi ei gynnwys yn y cylch hwn. Ategwyd hynny gan un ymatebwr a nododd y dylid sicrhau bod presgripsiynau yn cael eu cwmpasu o fewn diffiniad y gweithgaredd hwn. Er hynny, derbyniwyd rhai sylwadau oedd yn cwestiynu priodoldeb cyhoeddi hysbysiadau ar bynciau arbenigol yn y ddwy iaith, gan fynd ymlaen i gwestiynu'r angen i gyhoeddi hysbysiad swyddogol o gwbl yn yr achosion hynny.

Nododd un ymatebwr y dylai'r safonau mewn perthynas â chorfforaethau addysg (bellach ac uwch) ei gwneud yn ofynnol iddynt ymrwmo i ddarpariaeth addysgol, drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain, yn ogystal â'r adnoddau a dderbynnir drwy ffrydiau allanol. Ategwyd hynny gan nodi y dylai'r cyrff dan sylw hefyd ysgogi galw gan fyfyrwyr, yn ogystal ag ymateb iddo. Yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg 2015¹⁰⁵ nodir yr isod:

At ddibenion safonau 84, 85 a 86 (cyrsiau), ystyr – cwrs addysg yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys gweithgareddau na chyrff sy'n cael eu darparu fel rhan o'r cwricwlwm yn unol ag unrhyw ddeddfiad.

Dylai Gweinidogion Cymru sicrhau eglurder ar yr uchod wrth bennu safonau, a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg bellach ac uwch mewn rheoliadau.

Safonau llunio polisi

Cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gosod y safonau uchod ar bob corff yng nghylch 2, gan ystyried mai'r polisiâu sy'n sail i'w holl weithredoedd. Cyfeiriodd ymatebwr arall yn benodol at sefydliadau megis y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Chwaraeon Cymru, Canolfan y Mileniwm ynghyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan nodi y dylent roi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi.

I'r un perwyl, cyfeiriodd un ymatebwr at bwysigrwydd gwneud y safonau llunio polisi yn benodol gymwys i'r Comisiynwyr a enwir yng nghylch 2, gan nodi bod nifer o adroddiadau ganddynt lle nad oes sôn am y Gymraeg o gwbl, a hynny mewn meysydd lle mae hawliau iaith yn cael eu tramgwyddo yn gyson.

¹⁰⁵ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/996/made/welsh/data.pdf>

Derbyniwyd sylwadau penodol mewn perthynas â'r Swyddfa Gyfathrebiadau, gan nodi ei rôl hollbwysig wrth ddyfarnu trwyddedau radio a theledu. Gyda hynny mewn golwg, roedd yr ymatebwr dan sylw o'r farn y dylai safon sydd yn gosod amodau iaith ar drwyddedau gael ei phennu o dan y safonau llunio polisi neu'r safonau mewn perthynas â dyfarnu contractau.

O'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd, bu cyfeiriadau at nifer o'r cyrff rheoleiddio proffesiynau yng nghylch 2, gan nodi y dylid sicrhau bod safonau yn cael eu pennu ar eu cyfer a fydd yn arwain at gynllunio gweithlu yn well at ddibenion Cymru ddwyieithog.

Mynegwyd pryder gan un ymatebwr ynglŷn â chyfyngder effeithiolrwydd y safonau llunio polisi y bwriedir eu pennu. Ategwyd hynny drwy nodi nad oes llawer o bolisiâu'n gallu bodoli ar lefel leol yn unig, ac y dylent fod yn rhan o gyd-destun ehangach, yn aml yn genedlaethol.

Safonau gweithredu

Pwysleisiwyd pwysigrwydd rôl sefydliadau megis yr Amgueddfa Genedlaethol, Canolfan Mileniwm Cymru, S4C, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru o ran cyfrannu at y Gymraeg fel iaith gwaith. Nododd y dylai'r sefydliadau dan sylw, ymysg eraill, fod yn rhai sydd yn gweithio tuag at weinyddu yn fewnol yn Gymraeg. O'r herwydd, roedd o'r farn y dylid pennu safonau gweithredu yn ychwanegol at y rhai yn y rheoliadau drafft a fyddai'n galluogi'r sefydliadau hyn, ymysg eraill, i weithio tuag at y nod hwnnw.

Yn yr un modd, roedd nifer o'r farn y dylid pennu safonau haen uwch mewn perthynas â recriwtio, gan ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau sydd eisoes yn gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg yn unig.

Derbyniwyd nifer o ymatebion gan y cyhoedd oedd yn nodi'r angen i bennu safonau a fyddai'n rhoi dyletswydd ar brifysgolion i gynnig a darparu cyfleoedd i'w myfyrwyr yn Gymraeg (ac i'r di-Gymraeg ddysgu'r iaith yn rhugl), ynghyd â safon a fyddai'n sicrhau bod dyletswydd arnynt mewn perthynas â hyfforddi gweithlu'r dyfodol.

Wrth gyflwyno sylwadau mewn perthynas â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, nododd un ymatebwr y dylid pennu safon a fyddai'n sicrhau bod cyfran o'r bobl sy'n cael eu penodi i'r Comisiwn yn siaradwyr Cymraeg, a hynny er mwyn adlewyrchu'r hyn a fynegwyd wrth ddiwygio'r gyfraith berthnasol. Derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi pwysigrwydd pennu safon o'r math hwn ar draws y sefydliadau dan sylw, a hynny er mwyn sicrhau y gall sefydliadau weithredu a chydymffurfio'n llawn â'r gofynion. I'r un perwyl, nododd un ymatebwr y dylid sicrhau bod safon yn cael ei phennu er mwyn gosod dyletswydd ar sefydliadau i gynnig rhaglenni dysgu Cymraeg dwys.

Derbyniwyd rhai sylwadau a oedd o'r farn y dylid eithrio swyddfeydd sefydliadol sydd tu allan i Gymru yng nghyd-destun y safonau gweithredu.

Safonau cadw cofnodion

Derbyniwyd nifer o ymatebion oedd yn gryf o'r farn y dylai sefydliadau orfod cadw cofnodion, a hynny er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder cyhoeddus mewn perthynas â chydymffurfio â'r gofynion.

Er hynny, pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai'r ddyletswydd i gadw cofnodion fod yn gymesur, ac y byddai'n fuddsoddiad gwell i sefydliadau wella ystod ac ansawdd eu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Ategwyd hynny gan nodi bod cyfrifoldeb ar Gomisiynydd y Gymraeg i ddyfarnu ar y cydbwysedd priodol hwnnw.

Undebau Myfyrwyr corfforaethau addysg bellach ac uwch

Wrth ymateb i'r ymchwiliad safonau a gynhelir mewn perthynas â chorfforaethau addysg bellach ac uwch, derbyniwyd nifer o sylwadau a oedd yn nodi'r angen i wneud safonau'n gymwysadwy ac yn benodol gymwys i Undebau Myfyrwyr. Pwysleisiodd un ymatebwr y rhan hanfodol bwysig sydd gan Undebau Myfyrwyr wrth ddarparu gwasanaethau i'r myfyrwyr ar y cyd â'r corfforaethau dan sylw, gan gyfeirio'n benodol at gymorth a chynrychiolaeth academiaidd yn ogystal â diogelu lles a buddiannau'r myfyrwyr.

Cyfeiriodd yr ymatebwr dan sylw at y dylanwad uniongyrchol a phellgyrhaeddol a gaiff yr Undebau ar brofiad myfyrwyr, yn ogystal â'r ffaith eu bod yn derbyn symiau sylweddol o arian gan y corfforaethau dan sylw. Ategwyd hynny gan nodi bod cynllun iaith Gymraeg presennol un gorfforaeth yn cydnabod y berthynas sydd rhyngddi a'r Undeb, a'r cyfrifoldeb sydd ganddi i'r perwyl hwnnw.

Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau o Undebau Myfyrwyr yn gweithredu'n ddwyieithog yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf. Er hynny, gan ystyried y gofynion ynghlwm â'r rheoliadau drafft, pwysleisiodd un ymatebwr mai tameidiog oedd hynny, ac yn aml yn dilyn llawer o waith pwysu gan fyfyrwyr. Gyda hynny mewn golwg, mynegwyd pryder ynglŷn â'r diffyg cynllunio strategol a chanolog sydd ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn Undebau Myfyrwyr, gan beri i'r Undebau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

I'r perwyl hwnnw, roedd yr ymatebwr o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru sicrhau bod safonau penodol yn cael eu pennu a'u gwneud yn benodol gymwys i gorfforaethau addysg, a hynny er mwyn cydnabod y berthynas hollbwysig â'r Undebau, yn ogystal â'r ystod o wasanaethau a ddarperir ganddynt i fyfyrwyr ar ran y corfforaethau dan sylw. Ychwanegodd yr ymatebwr dan sylw ei fod o'r farn y byddai peidio â phennu safonau o'r math hwn yn golygu na chaiff hawliau ieithyddol myfyrwyr Cymru eu diogelu, ac, o safbwynt y myfyrwyr hynny, mai ofer fydd unrhyw ymgais i osod safonau ar lefel gorfforaethol.

Atodiad B - Rhestr o'r ymatebwyr i'r ymchwiliad safonau

Isod ceir rhestr o'r personau perthnasol y cynhaliwyd ymchwiliad safonau mewn perthynas â hwy, y Panel Cyngori ynghyd ag aelodau'r cyhoedd a oedd yn fodlon inni gyhoeddi eu sylwadau.

Personau perthnasol

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Gwent
- Coleg Penybont
- Coleg Sir Benfro
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp NPTC
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Cymru
- Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Glyndŵr
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Y Brifysgol Agored
- Career Choices Dewis Gyrfa

Aelodau'r cyhoedd

- Alun Jones
- Alun Ceri Jones
- Eifion Jones
- Elin Walker Jones
- Eiliw Alwyn
- Selwyn Lloyd-Jones
- Hywel Wyn Jones
- John Arwel Griffiths
- Lloyd Evans
- Anthony Barry
- Sharon Roberts
- Sion Jobbins
- Owen Saer
- Einir Sion
- Siân Gwenllian

- Lisbeth McLean
- Amanda Evans
- Rhys Glyn
- Anthony Barnard
- Anthony Caradog Evans
- Tim Jones
- Yasmin Morris
- Llinos Jones
- Aled Jones
- Dewi Snelson
- Emrys Wynne
- Curon Wyn Davies
- Bethan Harvey
- Mair Edwards
- Kathryn
- Helen Thomas
- Geraint Brython Edwards
- Rhodri Williams
- Ruth Evans
- Penri Williams
- Huw Jones
- Emyr Tomos
- Bethan Williams
- Llyr ap Gruffydd
- Robin Farrar
- Robert Jones
- Iago ap Steffan
- Sophie Hughes
- Huw Alun Roberts
- Chris Andrew
- Heledd Gwyndaf
- John Wynn Jones
- Manon James
- Gill Stephen
- Gwyn Williams
- Daron Pierce
- Sian Wyn Jones
- Emma Lloyd
- Neville Evans
- Diane Jones
- Jane Aaron
- Emyr Puw
- Harri Bryn Jones
- Liz Saville Roberts
- Craig ab Iago
- Rhian Davies
- Gwyn Sion Ifan
- Anna Williams
- Dyfan Jones
- Dai Hawkins

- Trefor Jones-Morris
- Dilwyn Morgan
- Y Parch. Emyr Wyn Thomas
- Bryn Davies
- Dr Ceridwen Lloyd Morgan
- Howard Thomas
- Connor
- Lydia Jones
- Rhodri Jones
- Bob Gaffey
- Angharad
- Ruth Williams
- Nic Daniels
- Jeffrey Jones
- Pablo Dubois
- Gareth Wood
- Llinos Roberts
- Bethan Jones
- Sian Mererid Jones
- Duncan Brown
- B Griffiths
- Awen M G Schiavone
- Osian Wyn Owen
- Robin Owain
- Judith Griffith
- Richard John Griffith
- Clive James
- Sion Williams
- Mathew Rees
- Thomas John Davies
- Ben Screen
- Mari Williams
- Enfys Jones
- Thomas Shaw
- Dafydd Thomas
- Angharad Brown
- John Jones
- Iago Sion
- Dafydd Williams
- Ieuan Parry
- Huw Thomas
- William Schleising
- Huw Roberts

Sefydliadau/Mudiadau

- Cymdeithas yr Iaith
- Dyfodol i'r Iaith
- Mentrau Iaith Cymru
- Swyddog y Gymraeg, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a Phwyllgor y Gymdeithas Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg

- Dr Ian Rees
- Gareth Jones
- Yr Athro Gwynedd Parry
- Bethan Jones Parry
- Carl Cooper